Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Adroddiad Blynyddol 2024-25

Gorffennaf 2025




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Amrywiaeth a Chynhwysiant:** Adroddiad Blynyddol 2024-25

Gorffennaf 2025

senedd.cymru



edd Cymru | Welsh Parliament
nnill Y Naratif
ing the Narrative

# Cynnwys

**Rhagair** ........ 7

**Uchafbwyntiau'r Flwyddyn** ........ 10

**Ein Hymagwedd Tuag at Amrywiaeth a Chynhwysiant** ........ 11

**Ein Gwerthoedd** ........ 12

**Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau bob dydd a'n cynllunio strategol** ........ 15

**Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd** 27

**Lle cynrychioliadol a chynhwysol i weithio ynddo** ........ 49

**Senedd Hygyrch, Gynhwysol a Byd-eang** ........ 69

**Beth nesaf?** ........ 109


Your Voice, Your Senedd:
Celebrating International Day of Disabled People
Eich llais, Eich Senedd:
Dathlu Diwrnod Rhyngwladol

# Cyflwyniad


AGORWYD GAN EI MAWRHYDI Y FRENHINES
OPENED BY HER MAJESTY THE QUEEN 1·3·2006



**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd



**Joyce Watson AS**
Comisiynydd y Senedd sy'n gyfrifol am gyflogeion chydraddoldeb

# Rhagair

## Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-25 Comisiwn y Senedd.

O ymgysylltu â'r gymuned a chefnogi Busnes y Senedd, i newidiadau polisi a dysgu a datblygu, rydym yn falch o'r camau yr ydym wedi'u cymryd. Mae ein hymrwymiad i Amrywiaeth a Chynhwysiant yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n sail i bopeth a wnawn.

Rydym yn ymdrechu i greu amgylchedd cynhwysol sy'n manteisio i'r eithaf ar sgiliau a chyfraniadau pawb, lle mae pawb yn gweithio mewn lle diogel, gydag ymdeimlad o berthyn, gan ein helpu ni i gyd i chwarae ein rhan wrth gefnogi datganoli a sicrhau senedd gynhwysol, hygyrch ac effeithiol.

Ond nid ydym yn hunanfodlon ac ni allwn fod yn hunanfodlon. Gwyddom nad ydym yn berffaith, a bydd gennym wastad waith i'w wneud wrth inni ymdrechu i fod y gorau y gallwn fod. A dyna ein nod - bod yn gyflogwr gorau posibl, darparu cefnogaeth ragorol i'r Aelodau, a sicrhau ein bod yn senedd mor hygyrch â phosibl sy'n sicrhau bod llais pawb yng Nghymru yn cael ei glywed.

Mae'r cynnydd a'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn dyst i ymrwymiad a chydweithrediad ein cydweithwyr y mae eu proffesiynoldeb diysgog yn glod i'r Aelodau ac i bobl Cymru y mae pob un ohonom yn gweithio iddynt. Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gyfrifoldeb i bawb, ac rydym yn eich gwahodd i ymgysylltu â ni i greu dyfodol mwy cynhwysol i bob un ohonom. Mae cynhwysiant yng ngwir ystyr y gair yn daith barhaus, yn hytrach na nod; gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar y daith honno.

Yn ôl ein harfer, byddem yn croesawu eich adborth ar yr adroddiad hwn ac ar sut y gallem ystyried gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol.

# Uchafbwyntiau'r Flwyddyn

## Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu arfer gorau a hyrwyddo cynhwysiant.

Rydym yn ymateb i adborth a heriau i dyfu fel sefydliad cynhwysol.

- Mae paratoadau'n parhau ar gyfer y Seithfed Senedd i hyrwyddo'r etholiad i bobl Cymru, darparu ar gyfer Aelodau ychwanegol a sicrhau y bydd ganddynt y wybodaeth a'r cymorth fydd eu hangen arnynt o'r diwrnod cyntaf.
- Gwella ffocws ar fonitro symudedd cymdeithasol.
- Gweithio'n agos gyda'n hundebau llafur i wella buddion i weithwyr hyd yn oed yn fwy.
- Cychwyn archwiliad o'r Senedd o sensitifrwydd o ran rhywedd.
- Croesawu ein trydedd carfan o interniaid Ymlaen.
- Cynyddu'r cyfnod o absenoldeb mamolaeth a thadolaeth / cyd-riant i staff.
- Cyflwyno cyfres o hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth i ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant.
- Cynnwys pobl Cymru yng ngwaith y Senedd drwy ymgynghori, gwaith allgymorth ac ymgysylltu.
- Croesawu aelodau trydedd Senedd Ieuenctid Cymru ac ymgysylltu â miloedd o blant drwy ein rhaglen addysg.
- Adolygu ein diwylliant corfforaethol drwy arolygon staff, lle mae 84% o'r staff wedi dweud eu bod yn teimlo y gallant fod yn hwy eu hunain yn y gwaith.
- Dathlu amrywiaeth, cynhwysiant a phobl Cymru.
- Parhau â'n dull UN TÎM o gydweithio a datblygu perthnasoedd â chydweithwyr.
- Gwahodd pobl i'r Senedd a chynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd sy'n dathlu Amrywiaeth a Chynhwysiant yng Nghymru.
- Hyrwyddo ymrwymiad corfforaethol gwell i lesiant.
- Y Farchnad – gwahoddodd sefydliadau Cymreig i'r Senedd i hyrwyddo eu gwaith.
- Cael ein cydnabod fel cyflogwr arferion gorau.

# Ein Hymagwedd Tuag at Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i fod yn senedd hygyrch sy'n cynrychioli holl bobl Cymru ac yn croesawu pobl o bedwar ban byd.  Ein nod yw bod yn sefydliad enghreifftiol a chynhwysol i'n staff, i Aelodau o'r Senedd ac i'r cyhoedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

## Ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein strategaeth[1] ar gyfer y chweched Senedd yn nodi ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'n amlinellu'r amcanion canlynol ar gyfer gweddill tymor y Senedd:

- Sicrhau bod Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau bob dydd a'n cynllunio strategol;
- Datblygu arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd;
- Meithrin lle cynrychioliadol, cynhwysol i weithio ynddo; a
- Darparu senedd hygyrch, gynhwysol i bobl Cymru.


Fel rhan o'r Strategaeth hon, mae ein timau ar draws Comisiwn y Senedd yn gyfrifol am ystyried Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob agwedd ar eu gwaith. Rydym yn parhau i ymdrechu i fod yn lle croesawgar i weithio ynddo ac i ymweld ag ef, a chynrychioli pawb yng Nghymru.

Mae ein strategaeth lawn ar gael ar ein gwefan, yn ogystal â chrynodeb, fersiwn Hawdd ei Deall a fersiwn yn Iaith Arwyddion Prydain.

[1] https://senedd.cymru/comisiwn/gwaith-i-gomisiwn-y-senedd/amrywiaeth-a-chynhwysiant-yn-y-comisiwn/ein-strategaeth/

## Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd corfforaethol yn datgan ein hymrwymiad i fod yn barchus, yn gynhwysol ac yn garedig, ac i gefnogi Senedd Cymru mewn ffordd sy'n dathlu ein cyfraniadau unigol at y gwaith o wasanaethu pobl Cymru.



### PARCH

Rydym yn gynhwysol ac yn garedig, ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein gilydd wrth ddarparu gwasanaethau rhagorol.




### ANGERDD

Rydym yn bwrpasol wrth gefnogi democratiaeth, gan dynnu ynghyd i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru.



## BALCHDER

Rydym yn arddel arloesedd ac yn dathlu ein llwyddiannau fel tîm.



## UN TÎM YDYM NI

Mae ein Gwerthoedd yn diffinio'r hyn a wnawn a sut yr ydym yn ei wneud, ac maent yn ein huno fel un tîm.



# Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i’n gweithgareddau bob dydd a’n cynllunio strategol



# Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ein gwaith

Mae cydweithwyr ar draws y sefydliad yn gweithio mewn ffordd arloesol i gynnwys Amrywiaeth a Chynhwysiant yn eu gwaith.

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn galluogi cydweithwyr ar draws ein sefydliad i ystyried sut y gallai eu gwaith effeithio ar wahanol bobl. Maent yn ffordd o sicrhau bod anghenion gwahanol bobl yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu neu adolygu pob math o weithgareddau megis polisïau, gweithdrefnau neu brosiectau. Mae ein Partneriaid Busnes AD yn cynnal cyfarfodydd misol gyda phob Pennaeth Gwasanaeth i sicrhau eu bod yn cynnal asesiadau o effaith fel rhan o unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynhaliwyd asesiadau o effaith ar amrywiaeth o waith gan gynnwys polisïau AD, newidiadau i'n hystâd a'n harferion gwaith.

## Urddas a Pharch

Yn 2023-24, cynhaliwyd adolygiad o'r diwylliant a'r arferion yn ymwneud ag Urddas a Pharch. Sefydlwyd gweithgor i arwain yr adolygiad ac i roi'r argymhellion ar waith. O ganlyniad i hyn, cyflwynwyd fframwaith Urddas a Pharch, a chymerwyd y camau canlynol:

- Adolygwyd ein tudalennau rhyngrwyd ar Urddas a Pharch i symleiddio a gwella'r geiriad;
- Cafodd posteri codi ymwybyddiaeth newydd eu harddangos ar draws ystâd y Senedd;
- Hyfforddwyd staff ychwanegol i fod yn swyddogion cyswllt Urddas a Pharch. Bellach mae gennym 12 swyddog cyswllt hyfforddedig sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth sy'n gysylltiedig ag ystod o nodweddion gwarchodedig;
- Lansiwyd dull newydd o fonitro cyfraddau a thueddiadau'n ymwneud ag ymddygiad amhriodol;

- Cynhaliwyd arolwg Urddas a Pharch ymysg ein staff a'r contractwyr sy'n gweithio gyda ni ar ein hystâd;
- Cyflwynwyd hyfforddiant a sesiynau codi ymwybyddiaeth gorfodol mewn perthynas ag Urddas a Pharch i'n staff;
- Diweddarwyd y Cod Ymddygiad i Staff i adlewyrchu'r disgwyliadau sy'n ymwneud ag Urddas a Pharch;
- O ganlyniad i gyflwyno Deddf Diogelu Gweithwyr (Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010) 2023, cynhaliwyd asesiad risg yn ymwneud ag aflonyddu rhywiol ar weithwyr a chyflwynwyd cynllun gweithredu.

## Ystâd Hygyrch

Rydym yn adolygu hygyrchedd ein hystâd yn barhaus drwy gynnal archwiliadau cynnal a chadw misol ac archwiliadau misol o dir yr ystâd, gan weithredu ar adborth. Rydym yn mabwysiadu arferion gorau ac yn ystyried gofynion mynediad ar gyfer yr holl waith adnewyddu a wneir ac yn cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ôl yr angen. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi:

- Parhau i ymgysylltu â'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) i wella hygyrchedd yn dilyn eu harchwiliad o'r Senedd. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys addasu'r canllawiau y tu allan i'r Senedd a phaentio stribedi lliw cyferbyniol ar bileri;
- Comisiynu archwiliad o'n darpariaeth dolen sain fel rhan o brosiect ehangach i adolygu'r ddarpariaeth clywed gynorthwyol ar draws yr ystâd. Yn dilyn yr archwiliad, diweddarwyd y system dolen sain ym mhob ardal blaen tŷ er mwyn gwella profiad ymwelwyr;
- Parhau â'r rhaglen o osod goleuadau LED er mwyn gwella gweledEDD i bobl ag amhariad ar eu golwg ac epilepsi sy'n sensitif i olau;
- Cynnal archwiliadau wythnosol o'r ystâd allanol er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i nodi ac atgyweirio rhwystrau posibl a allai lesteirio mynediad;
- Cwblhau'r gwaith o adnewyddu Tŷ Hywel fel rhan o brosiect ystâd parhaus ar raddfa fawr a oedd yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ymgynghori â defnyddwyr yr adeiladau ar draws gwasanaethau'r Comisiwn, gan gynnwys ein holl rwydweithiau amrywiaeth ac Undebau Llafur;

- Bwrw ymlaen â'r gwaith dylunio i addasu Siambr y Senedd sydd wedi cynnwys gwaith ymgysylltu helaeth â'n staff, yr Aelodau ac ymgynghorwyr hygyrchedd. Bydd y cynllun newydd yn cynnwys llawr ar oledd (ble yr oedd grisiau o'r blaen), darllenfa integredig, a gosod lifft platfform i sicrhau y bydd y bythau cyfieithu a chlyweledol yn gwbl hygyrch yn y dyfodol;
- Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw rhagweithiol ar stribedi gwneud sŵn y Senedd. Peintiwyd naw stribed gwneud sŵn â phaent gwrthlithro er mwyn gwella gafael ac atal pobl rhag llithro, baglu a chwympo.

## Strategaeth Pobl a Diwylliant

Mae'r Strategaeth Pobl a Diwylliant yn rhan o'n trefniadau llywodraethu corfforaethol a chynllunio, ac mae'n dwyn ynghyd strategaethau presennol a ffrydiau gwaith perthnasol. Mae'r strategaethau presennol hyn yn cynnwys y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, y Strategaeth Llesiant, a'r Fframwaith Urddas a Pharch sydd oll yn pwysleisio pwysigrwydd parch, goddefgarwch a chynhwysiant yn y gweithle.

Un o chwe blaenoriaeth strategol y Strategaeth Pobl a Diwylliant yw 'Perthyn' – y dyhead i greu gweithle cydweithredol a chynhwysol lle mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau bob dydd, drwy gynllunio, dylunio a chyflawni gwasanaethau a phrosiectau.

## Ffyrdd eraill y mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu hymgorffori yn ein gwaith:

### Atebolrwydd ar lefel uwch swyddogion

Er mwyn datblygu ymhellach atebolrwydd a pherchnogaeth uwch reolwyr o'n Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, mae amcan Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i chynnwys yn adolygiadau perfformiad pob aelod o'r Bwrdd Gweithredol.

### Meithrin partneriaethau

Mae gennym berthynas waith glos â nifer o bartneriaid strategol allanol, rhwydweithiau'r sector cyhoeddus a chymheiriaid rhyngseneddol sy'n darparu cyngor, arweiniad ac adnoddau ar wahanol bynciau i'n helpu i wreiddio cynhwysiant ymhellach.

## Fforwm Partneriaeth: Cyfarfodydd rhwng yr Undebau Llafur a Rheolwyr

Mae aelodau ein hundebau llafur cydnabyddedig yn cwrdd yn rheolaidd â'n huwch reolwyr i drafod materion strategol a gweithredol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod deialog gyson rhwng ein harweinwyr a chynrychiolwyr y staff ac yn helpu i ddatblygu polisïau cynhwysol ac ymwreiddio ymhellach ymdeimlad o berthyn i'n staff.

## Recriwtio

Rydym wedi hyrwyddo cynhwysiant yn ystod y broses recriwtio drwy:

- Adolygu ein polisi recriwtio i gyd-fynd â'n cynllun ar gyfer y gweithlu a'n Strategaeth Pobl a Diwylliant;
- Datblygu modiwl hyfforddiant recriwtio cynhwysol a chanllawiau cysylltiedig i reolwyr sy'n cyflogi pobl;
- Adolygu canllawiau i ymgeiswyr er mwyn darparu eglurder ynghylch y prosesau ac i roi sicrwydd i ymgeiswyr anabl ynghylch yr addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud drwy gydol y broses recriwtio; a
- Diweddaru elfennau o'n tudalennau recriwtio ar y wefan.

Mae ein Tîm Recriwtio yn parhau i:

- Weithredu system o geisiadau dienw lle bo modd er mwyn rhoi'r hyder i'r rhai sy'n ymgeisio am swyddi na fydd rhagfarn yn y broses ymgeisio;
- Datblygu cynllun denu ymgeiswyr sy'n cynnwys strategaethau i ehangu'r gronfa dalent a datblygu deunyddiau marchnata a gweithgareddau allgymorth;
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaeth chwilio weithredol i gynyddu ac amrywio'r cronfeydd talent a'r paneli ar gyfer penodiadau i swydd uwch y Comisiwn,  penodiadau Cyhoeddus a phenodiadau'r Goron; ac
- Adolygu adborth gan ymgeiswyr a rheolwyr sy'n cyflogi pobl er mwyn gwella prosesau a chanllawiau.

## Recriwtio ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus a Phenodiadau'r Goron

Mae ein rôl o ran penodiadau Cyhoeddus a Phenodiadau'r Goron yn amrywio yn dibynnu ar rôl y Senedd ym mhob proses benodi. Rydym yn parhau i gasglu, dadansoddi a monitro data ar amrywiaeth yr ymgeiswyr ar gyfer pob penodiad Cyhoeddus a phenodiad y Goron er mwyn datblygu set ddata gyfoethocach. Ynghyd â chasglu a dadansoddi data, mae cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwahanol rolau i ddarpar benodeion i swyddi Cyhoeddus a swyddi'r Goron a chynyddu'r nifer sy'n cael eu denu atynt.

## Grŵp Llywio'r Gweithlu

Mae Grŵp Llywio'r Gweithlu yn darparu goruchwyliaeth strategol o'n blaenoriaethau o ran y gweithlu a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r Grŵp:

- Yn cefnogi datblygiad y gweithlu i sicrhau bod gennym staff sydd â'r sgiliau, y cymwyseddau a'r wybodaeth i ddarparu cymorth a gwasanaethau effeithiol i'r Senedd;
- Yn sicrhau bod yr amgylchedd gwaith i staff yn amgylchedd cadarnhaol sy'n hyrwyddo diwylliant agored sy'n cefnogi ein gwerthoedd;
- Yn sicrhau bod iechyd a llesiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth;
- Yn gwneud argymhellion ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu.

Mae ein Grŵp Llywio'r Gweithlu hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant i sicrhau bod cynhwysiant yn rhan annatod o'n blaenraglenni gwaith strategol dyfodol. Mae'r prif effeithiau'n cynnwys:

- Cynnal dadansoddiad PESTLE i ddeall yn well y ffactorau allanol sy'n effeithio ar y Comisiwn;
- Trafod a blaenoriaethu gweithgareddau Cynllunio'r Gweithlu ar gyfer y Comisiwn;
- Cyfrannu at ddrafft newydd o Strategaeth Pobl a Diwylliant y Comisiwn;
- Trafod sut y gall aelodau Grŵp Llywio'r Gweithlu, sydd ar y Tîm Arwain, sicrhau bod eu gwasanaethau'n ymrwymo i'r strategaeth.

## Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant

Ers ei gyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2024, mae'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi chwarae rhan bwysig yn y broses o feithrin gweithle cynhwysol a blaengar. Mae'r prif effeithiau'n cynnwys:

- Rhaglen Interniaeth Ymlaen – darparu mewnbwn i sicrhau hygyrchedd a chyfleoedd datblygu ystyrlon;
- Wythnos Cynhwysiant (Medi 2024) – llunio'r themâu a'r meysydd ffocws i feithrin ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth; a
- Digwyddiadau'r calendr amrywiaeth – cefnogi'r gwaith o nodi dyddiadau Amrywiaeth a Chynhwysiant allweddol er mwyn dathlu ac addysgu.

Mae'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sicrhau bod Amrywiaeth a Chynhwysiant yn parhau i fod yn rhan annatod o'n prosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Mae'r grŵp wedi cyflawni hyn drwy:

- Gyfrannu at adroddiadau busnes-fel-arfer a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol, gan sicrhau bod ystyriaethau Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u hymgorffori ynddynt;
- Goruchwylio cynnydd ar y strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant a darparu atebolrwydd ynghylch yr amcanion sydd heb gael eu cyflawni;
- Darparu gwybodaeth ac argymhellion ar gyfer y Strategaeth Pobl a Diwylliant; a
- Sefydlu Is-grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n ymroddedig i wella cyfathrebu ac ymgysylltiad â chymunedau amrywiol, gan helpu i ysgogi ymgyrchoedd ac ymdrechion allgymorth mwy cynhwysol.

## Caffael

Mae cyfle cyfartal wedi'i gynnwys fel rhan o'n hasesiadau risg cynaliadwyedd, sy'n cael eu cynnal ar ddechrau ein proses gaffael. Yn ogystal â hynny, mae ein proses cyn-gymhwyso ar gyfer tendrau yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb i gyflenwyr. Ni fydd cyflenwyr sy'n methu â dangos eu hymrwymiad i gydraddoldeb yn cael eu cynnwys ar ein rhestrau tendr.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd adolygu contractau rheolaidd gyda'n prif gyflenwyr ac un o'r eitemau safonol ar yr agenda yw cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Rydym yn gweithio gyda'n cyflenwyr i fonitro a sicrhau arferion cyflogaeth teg ac rydym yn cadw'r hawl i ofyn am newidiadau i unrhyw un o'r arferion yr ystyriwn eu bod yn annheg. Mae hyn hefyd yn rhwymedigaeth gytundebol sy'n rhan o'n telerau ac amodau.

Rydym yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig, ac rydym yn sicrhau bod ein contractwyr mewnol yn cael eu talu uwchlaw'r gyfradd cyflog byw gan eu cyflogwyr, ac rydym hefyd wedi gweithio gyda nhw i wella eu polisi salwch.

Ym mis Hydref 2024, mynychodd aelod o'r tîm weithdy a hwyluswyd gan Busnes yn y Gymuned, lle y trafodwyd canfyddiadau ei arolwg o Arweinwyr, Gweithwyr a Phrosesau Caffael a oedd yn canolbwyntio ar amrywiaeth mewn cadwyni cyflenwi. Tynnodd y sesiwn sylw at:

- Arferion gorau o ran prosesau caffael sy'n gynhwysol i gyflenwyr sy'n cael eu harwain gan bobl Ddu, Asiaidd, Hil Gymysg, a grwpiau ethnig amrywiol eraill;
- Y rhwystrau y mae'r cyflenwyr hyn yn eu hwynebu a sut i'w goresgyn; a
- Astudiaethau achos o strategaethau caffael cynhwysol llwyddiannus gan fusnesau blaenllaw.

Mae'r hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad hwn yn cael ei ymgorffori yn ein gwaith ar gyfer y dyfodol.

## Diogelwch

Mae ein Tîm Diogelwch pwrpasol ar gyfer yr Aelodau yn ymgymryd â gwaith i wella diogelwch a hygyrchedd mewn swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol. Er enghraifft, rydym wedi bod yn gosod parwydydd er mwyn creu derbynfeydd. Er mai mesur diogelwch ffisegol yw hyn yn bennaf, rydym hefyd yn sicrhau bod gofynion hygyrchedd priodol yn cael eu diwallu, megis sicrhau bod drysau'n ddigon mawr i gadeiriau olwyn a bygis, a gosod dolenni sain.

Mae ein Tîm Diogelwch hefyd yn parhau i hyrwyddo cynhwysiant drwy:

- Ddarparu addasiadau rhesymol i staff, megis diwygio patrymau sifftiau ac addasu rotâu i ganiatáu i bobl weddïo, ymweld â mosg a dathlu Ramadan;
- Sicrhau bod ein gwisg swyddogol yn diwallu anghenion ein staff; a
- Sicrhau bod ymwelwyr yn cael croeso cynhwysol drwy addasu gweithdrefnau, rhagweld anghenion ymwelwyr a chynnal hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid cynhwysol.

## TGCh a Darlledu

Mae ein tîm TGCh a Darlledu yn parhau i wella hygyrchedd llwyfannau digidol ar draws y Senedd. Rydym wedi ceisio sicrhau bod gwybodaeth, gwasanaethau ac adnoddau ar gael i bawb a bod modd i bawb eu defnyddio. Mae hyn wedi cynnwys ymchwilio i botensial Deallusrwydd Artiffisial i gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau dwyieithog a phrofi Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol i ddeall pa gefnogaeth y gall ei chynnig i'r rhai ag anghenion amrywiol fel dyslecsia.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod TGCh yn diwallu anghenion holl ddefnyddwyr y system. Ymysg yr enghreifftiau mae gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion newidiol yr Aelodau, staff yr Aelodau, ein staff a'n hymwelwyr ac yn defnyddio gwahanol dechnolegau i helpu i fynd i'r afael â'r anghenion hyn.

Mae'r tîm hefyd yn trefnu gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol. Darperir hwn yn ôl-weithredol ar gyfer pob sesiwn Cwestiynau'r Prif Weinidog ac fe'i darperir yn ôl-weithredol ac yn fyw ar gyfer dadleuon sy'n ymwneud ag amhariad ar y clyw. Dros y 12 mis diwethaf mae'r gwasanaeth wedi darparu dros 46.30 awr o ddehongli BSL dros 44 o sesiynau gwahanol.

Rydym yn gweithio ar brosiect amlflwyddyn i osod systemau a seilwaith darlledu newydd, a bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod 2026. Un o brif sbardunau'r gwaith hwn yw gwneud gwelliannau sylweddol i hygyrchedd – i gynhyrchu a darparu isdeitlau a chapsiynau caeedig ac arddangos dehongliad BSL.

## Bae 2032

Prosiect hirdymor ar raddfa fawr yw hwn sy'n edrych ar ein hanghenion yn y dyfodol o ran adeiladau ar ein hystâd yng Nghaerdydd. Mae'r materion sy'n cael eu hystyried yn cynnwys:

- Ymgorffori mesurau cynhwysiant ehangach megis mannau i bobl niwrowahanol, ystafelloedd gweddïo neu ardaloedd sy'n annog ffocws, cydweithio, dodrefn wedi'u hinswleiddio'n acwstig, etc. Yn gysylltiedig â hyn mae cyfle i fuddsoddi mewn dull gweithredu cyfannol, ar draws yr ystâd, gan ymgorffori nodweddion fel dynodwyr llwybrau a nodweddion hygyrchedd mewn ffordd gyson er mwyn darparu profiad gwell i ddefnyddwyr yn gyffredinol.
- Un o themâu sylfaenol gweledigaeth ar gyfer adeiladau'r dyfodol yw bod angen i'n gofod fod yn gynhwysol ac yn groesawgar, gan greu mannau sy'n hygyrch, yn ddiwylliannol sensitif ac yn ystyriol o anghenion newidiol defnyddwyr yr adeilad.

## Achrediad Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Rydym yn parhau i adolygu ein cyrsiau mewnol gan edrych arnynt drwy lens cynhwysiant. Fel rhan o'n hymrwymiad i ddysgu parhaus a datblygiad cynhwysol, rydym yn gweithio i sicrhau bod ein holl gyrsiau DPP mewnol wedi'u hachredu. Mae'r broses hon yn cynnwys sicrhau bod ein cyrsiau'n hygyrch, yn gynrychioliadol, ac yn cefnogi anghenion amrywiol ein gweithlu. Drwy ymgorffori cynhwysiant mewn datblygiad proffesiynol, rydym yn meithrin amgylchedd dysgu lle y gall pob cydweithiwr ffynnu.


Explore the Senedd
Eich llais, Eich Senedd
Dathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl
Your Voice, Your Senedd
Celebrating International Day of Disabled People
Codi eich llais
Cyda: Matt Navarra a Rob Osborne
Yn dechrau am 11.15
Amplifying your voice
With: Matt Navarra and Rob Osborne
Starts at 11.15


SVC
SHINY
HAPPY
CHOIR
SHINY HAPPY PEOPLE

# Arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd



# Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein holl gydweithwyr yn deall eu rôl o ran hyrwyddo cynhwysiant a meithrin gweithle ac amgylchedd seneddol cynhwysol. Mae atebolrwydd ar lefel uwch swyddogion o ran cyflawni'r strategaeth hon wedi cynyddu.

Rydym yn deall bod dysgu a datblygu yn allweddol i ddatblygu gweithlu ymgysylltiedig a chynhwysol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym wedi parhau i ddarparu cyfres o gyfleoedd dysgu i'n staff, ar ffurf sesiynau dysgu ffurfiol a sesiynau codi ymwybyddiaeth anffurfiol.

### Gwasanaeth Cynhwysol i Gwsmeriaid

Darparwyd yr hyfforddiant hwn gan gyflenwr allanol, Sglein, i'n staff sy'n delio â'r cyhoedd ac roedd yn canolbwyntio ar daith y cwsmer ac arferion gorau o ran cynhwysiant, a helpu ymwelwyr i deimlo eu bod yn perthyn. Rydym wedi adeiladu ar y gwaith hwn drwy ddatblygu sesiynau ar wydnwch a llesiant mewn perthynas ag ymgysylltu â'r cyhoedd, yn bersonol neu ar-lein.

### Amrywiaeth ddiwylliannol ac arferion niweidiol

Darparwyd yr hyfforddiant hwn gan BAWSO er mwyn codi ymwybyddiaeth o brif ddiwylliannau a chrefyddau'r DU. Edrychodd y cwrs ar sut rydym yn diffinio diwylliant, gan feithrin dealltwriaeth o amrywiol arferion a gwerthoedd diwylliannol, a chydnabod sut y mae ein system gredoau yn effeithio ar ein canfyddiad o ddiwylliant.

### Hiliaeth Sefydliadol

Mynychodd aelodau o'n Tîm Arwain weithdy gyda Is-gadeirydd Cyngor Hil Cymru, yr Athro Emmanuel Ogbonna CBE ar sut y gall arweinwyr y Senedd ymgorffori diwylliant gwrth-hiliol yn eu sefydliad. Nodau’r gweithdy oedd meithrin dealltwriaeth o’r sgiliau, y wybodaeth a’r agwedd sydd eu hangen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil a hyrwyddo cyfle cyfartal, a dysgu sut i

ymgorffori diwylliant gwrth-hiliol yn y gweithle lle y gall pobl o bob cefndir amrywiol ffynnu.

## Gweithdy Ramadan

Edrychodd y sesiwn hon, a gynhaliwyd gan MEND, ar:

- Bum piler Islam;
- Hanes Islam yng Nghymru a Mwslimiaid yn y DU;
- Canllaw byr i Ramadan, beth ydyw a sut mae'n cael ei ddathlu;
- Cyflwyniad i wahaniaethu yn y gweithle a'r hyn sy'n bwysig i weithwyr Mwslimaidd.

## Iaith, cyfathrebu a lleoedd cadarnhaol am niwrowahaniaeth

Wedi'i gynnal gan Aûtentic, bu'r sesiwn hon o gymorth i'r staff ddeall sut y gallant gefnogi cydweithwyr niwrowahanol mewn ffordd gadarnhaol.

## Mis Gweithredu Endometriosis - Dysgu dros Ginio

Canolbwyntiodd y sesiwn hon, a gynhaliwyd gan Endometriosis UK, ar beth yw endometriosis, y symptomau, y driniaeth a sut i reoli'r cyflwr. Fe wnaeth hefyd drafod ei effaith yn y gweithle, a sut y gall cyflogwyr gadarnhau eu hymrwymiad i ddatblygu amgylchedd gwaith a diwylliant sy'n galluogi cydweithwyr ag endometriosis i ffynnu yn y gwaith.

# Gweithgaredd Dysgu a Datblygu Rhyngseneddol

Fe wnaethom weithio gyda'n cydweithwyr rhyngseneddol o Gynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban a'r Oireachtas i gynnal cyfres o ddigwyddiadau dysgu drwy gydol y flwyddyn. Roedd y rhaglen ar gyfer Wythnos Dysgu yn y Gwaith yn cynnwys sesiynau ar sut i gaffael gwybodaeth fel arweinwyr mewnblyg; goresgyn syndrom y ffugiwr, pŵer coetsio, gweithio'n ddoethach o bell a dod yn siaradwyr hyderus ac ysbrydoledig. Cynhaliwyd sesiynau hefyd ar Iaith Arwyddion Prydain, Gaeleg yr Alban, Gaeleg Gwyddelig a Chymraeg.

Yn ystod Mis Cynhwysiant a gynhaliwyd ym mis Hydref, roedd y sesiynau'n cynnwys cynhwysiant mewn perthynas â phobl draws ac anneuaidd gyda Genderspace; cynghreiriaeth; ymdopi â'r menopos yn y gweithle; prosesau recriwtio cynhwysol; ac ymwybyddiaeth o hiliaeth a chymhwysedd diwylliannol gyda Race Equality First.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau ym mis Chwefror ar gyfer Mis Hanes LHDTC+ gan gynnwys sesiwn a roddodd drosolwg o'r mudiad rhyddid, sut i greu mannau diogel i bobl LHDTC+ yn y gwaith, a chynhwysiant mewn perthynas â phobl draws ac anneuaidd. Ymwelodd aelodau o staff, gan gynnwys aelodau a chynghreiriaid ein rhwydwaith PLWS ar gyfer staff LHDTC+, â Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru i weld yr Arddangosfa Pride a gwrando ar sgwrs gyda Mark Etheridge, Prif Guradur Datblygu Casgliadau LHDTC+ Sain Ffagan.




◀ Mark Etheridge from St Fagans talking to Senedd staff about their LGBTQ+ collection

# Codi ymwybyddiaeth ar gyfer diwylliant cynhwysol

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth gwahanol sy'n ein helpu i ddathlu amrywiaeth ac annog cynhwysiant, gan gynnwys Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Mis Hanes LHDTC+, Wythnos Dathlu Niwrowahaniaeth, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, Ramadan, Diwrnod Cofio'r Holocost, Blwyddyn Newydd Tsieineaidd, Holi ac Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl.

Yn ogystal â'n gweithdy Cynghreiriaeth a gynhelir yn fewnol, rydym yn defnyddio ein rhwydwaith ENGAGE i rannu *Awgrymiadau Defnyddiol ar gyfer bod yn Gynghreiriad Amrywiaeth a Chynhwysiant* yn rheolaidd, yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau megis herio rhywiaeth fuddiannol; dilead; Ramadan; hygyrchedd digidol; Diwrnod Cofio'r Holocost; Diwrnod Dathlu Deurywioldeb; Mis Hanes Anabledd; Wythnos Ymwybyddiaeth Traws; braint ac empathi; ac ailddiffinio egni gwrywaidd.




◀ Library display for Pride

# Cefnogi Iechyd, Diogelwch, Llesiant a Diogelu

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur arall i'n tîm Iechyd, Diogelwch, Llesiant a Diogelu, ac mae ei waith ar weithredu ein Strategaeth Llesiant yn parhau, gyda chamau gweithredu a oedd yn cynnwys:

- Hysbysu staff am y cymorth, y canllawiau, y polisïau a'r adnoddau cyfeirio sydd ar gael yn fewnol ac yn allanol.
- Cynhyrchu cylchlythyr chwarterol i roi awgrymiadau, canllawiau, cyngor, a chyfeiriadau i staff ar sut i gadw'n iach yn ystod y tymor.
- Cynnal sesiynau gwybodaeth llesiant i bob maes gwasanaeth.
- Llunio Ymrwymiad Llesiant. Yn nhymor yr Hydref 2024, lansiwyd ein Hymrwymiad Llesiant, sy'n un o'r agweddau allweddol ar ein Strategaeth Llesiant. Mae'r ymrwymiad hwn yn amlinellu sut rydym yn hyrwyddo gweithle cefnogol a chynhyrchiol drwy nodi disgwyliadau rheolwyr a staff yn erbyn amcanion y Strategaeth Llesiant.

  Lansiwyd yr ymrwymiad mewn cyfarfod i'r holl staff, a oedd wedi'i neilltuo'n gyfan gwbl i lesiant staff. Fe wnaeth panel a oedd yn cynnwys aelodau o'n Tîm Arwain drafod pam mae llesiant yn bwysig iddyn nhw, a'r hyn y maent yn ei wneud i gefnogi eu llesiant yn y gwaith ac yn eu bywyd personol.

  Mae is-grŵp llesiant wedi cael ei sefydlu i ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen i gefnogi'r ymrwymiad, ac mae'r Tîm Arwain wedi ymrwymo i gynnal pedair sesiwn hyfforddi y flwyddyn ar lesiant fel rhan o gyfarfodydd eu tîm arwain.
- Nodi Mis Gweithredu ar Endometriosis. Ym mis Mawrth 2025, fe wnaethon ymuno â'r Cynllun Sefydliad sy'n Deall Endometriosis fel ffordd o gadarnhau ein hymrwymiad i ddatblygu amgylchedd gwaith a diwylliant sy'n galluogi gweithwyr ag endometriosis i ffynnu yn y gwaith. Roedd nifer o weithgareddau wedi'u cynllunio drwy gydol y mis.
- Mae ein timau wedi cydweithio'n agos i ddiweddaru polisïau diogelu ar gyfer 2025. Mae'r diweddariadau hyn yn ymhelaethu ar yr egwyddorion a'r diffiniadau diogelu presennol er mwyn rhoi canllawiau cliriach i staff, gan gynnwys amlinellu'r flaenoriaeth gyfartal i bob plentyn ac oedolyn

sy'n wynebu risg waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r polisïau'n symleiddio'r weithdrefn adrodd am bryderon diogelu a datgeliadau diogelu er mwyn ei gwneud yn haws i staff ddeall sut i uwchgyfeirio a chofnodi digwyddiadau diogelu.

- Mae hyfforddiant diogelu ar gyfer Aelodau, Staff Cymorth yr Aelodau a'n staff ni ein hunain wedi'i gynnwys yn y fframwaith hyfforddi iechyd, diogelwch, llesiant, diogelu a chynhwysiant.
- Mae ein Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Diogelu yn parhau i weithio'n agos gyda thîm Senedd Ieuenctid Cymru i sicrhau bod trefniadau iechyd, diogelwch, llesiant a diogelu cadarn ar waith ar gyfer Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru, gan gynnwys cyfrannu at ddogfennau gweithdrefnol a chynnal asesiadau risg o gyfarfodydd rhanbarthol a phreswyl.

# Y Rhwydwaith Ymgysylltu â Staff – ENGAGE

ENGAGE yw ein rhwydwaith ar-lein sydd â'r nod o wella cyfathrebu, meithrin ymgysylltiad gweithwyr a hyrwyddo amgylchedd gwaith cadarnhaol. Mae ENGAGE yn caniatáu i'n holl staff fod yn rhan o'r broses o lywio eu profiad gwaith a rhannu a dathlu syniadau i ysgogi newid cadarnhaol.

Mae ENGAGE yn cyfrannu at amgylchedd cadarnhaol a chynhyrchiol yn y gweithle, sydd â'n gwerthoedd wrth ei wraidd; Angerdd, Balchder, Parch ac Un Tîm. Defnyddiwyd platfform ENGAGE i rannu digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar draws y sefydliad gan gynnwys ein cyfarfodydd staff a'n cynllun cydnabyddiaeth blynyddol.

ENGAGE
Ein Rhwydwaith ymgysylltu â'r holl staff

# Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle

Mae ein rhwydweithiau yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithle cynhwysol drwy:

- Fod ar gael i roi cyngor a chymorth i'n staff;
- Cyfrannu at ddatblygu polisïau corfforaethol;
- Codi ymwybyddiaeth o fathau gwahanol o gynhwysiant;
- Hyrwyddo llesiant i bawb;
- Mynychu hyfforddiant i gefnogi eu gwybodaeth ymhellach; a
- Mynychu dathliadau cynhwysiant fel cymryd rhan yng ngorymdaith Pride Cymru a mynychu digwyddiadau Mis Hanes Pobl Dduon.

**EMBRACE**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i bobl anabl

**INSPIRE**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i fenywod

**MINDFUL**
Ein Rhwydwaith Cefnogi Iechyd Meddwl

**PLWS**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i bobl LHDTC+

**REACH**
Ein Rhwydwaith Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol

**RISE**
Ein Rhwydwaith Symudedd Cymdeithasol

**TEULU**
Ein Rhwydwaith Gofalwyr a Rhieni sy'n Gweithio

# **Astudiaeth Achos:** MINDFUL

Mae MINDFUL, ein rhwydwaith iechyd meddwl a llesiant, wedi parhau i gynnig sesiynau galw heibio rhithwir ac wyneb yn wyneb rheolaidd. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rhoddwyd mwy o sylw i annog staff i neilltuo amser yn ystod eu diwrnod gwaith i ailgysylltu â chydweithwyr a chymryd egwyl oddi wrth y sgrin, drwy fynd allan gyda'i gilydd a symud mwy yn ystod amseroedd egwyl, gan gynnwys mynd am dro llesiant amser cinio drwy ein grŵp Staff 'Senedd Steppers'.

**Gwella Cymorth Llesiant i'n timau diogelwch**

Ymunodd un o gyd-gadeiryddion y rhwydwaith â rheolwyr diogelwch i drafod ffyrdd o wella cymorth llesiant i'w timau a rheolwyr timau. Gan gydnabod nad yw eu gwasanaeth yn defnyddio'r fewnrwyd fel adrannau eraill, fe wnaethom ddarparu deunyddiau i'r rheolwyr eu defnyddio a'u harddangos yn yr ystafell fwyta. Rydym hefyd yn cymryd camau i benodi swyddogion diogelwch yn Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl ar gyfer yr adran, i gadw mewn cysylltiad â'r rhwydwaith fel cysylltiad cadarnhaol i'r timau, er mwyn gwella cyfathrebu a sefydlu gwell ffordd o roi adborth i ni a rheolwyr y timau.


**Codi ymwybyddiaeth**

Mae'r rhwydwaith MINDFUL yn hyrwyddo llesiant drwy gydol y flwyddyn.

- Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl - I gydnabod y thema 'symud' ar gyfer wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl eleni, fe wnaeth y rhwydwaith Mindful gyd-dafod â'n rheolwr Cynaliadwyedd i drefnu teithiau cerdded llesiant ym myd natur.
- Cyfarfod i'r holl staff ar y thema llesiant – Trefnodd y rhwydwaith stondin gacennau gan godi £300 i Mind Cymru ac annog staff i gymryd egwyl ar ôl y cyfarfod i ailgysylltu a chael clonc gyda chydweithwyr, ac uwch reolwyr ar draws yr holl adrannau.
- RED January – Anogodd y rhwydwaith y staff i symud bob dydd ym mis Ionawr drwy gofnodi pob cam ar eu ap ffitrwydd, gan gystadlu fel tîm yn erbyn sefydliadau eraill i weld pwy oedd fwyaf egnïol.
- Diwrnod Amser i Siarad – Gweithiodd y rhwydwaith gyda'n Rheolwr Llesiant i gynnal sesiwn galw heibio er mwyn rhoi mynediad i'r staff at gyngor, cymorth a gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael ar gyfer llesiant.







◀ Photos of members of our mindful network meeting an emotional support dog and on a walk to promote wellbeing

# Symudedd Cymdeithasol

I nodi Diwrnod Symudedd Cymdeithasol yn y DU, lansiodd ein Hyrwyddwr Symudedd Cymdeithasol ein rhwydwaith diweddaraf, RISE. Mae'r enw'n adlewyrchu'r dyhead i bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is gyrraedd eu potensial, a ffocws y rhwydwaith yw sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfleoedd i lwyddo, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol.

Eleni, datgelodd 51.7% o'n staff eu cefndir economaidd-gymdeithasol, o'i gymharu â 47.5% yn 2022-23 a 48.5% yn 2023-2024. Mae'r cynnydd hwn, er yn fach, yn gam ymlaen. Rydym yn parhau i annog pob aelod o staff i ddatgelu eu cefndiroedd er mwyn ein helpu i gynhyrchu set ddata gyfoethocach a mwy cynhwysfawr. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i ddeall cefndiroedd amrywiol ein gweithlu a nodi meysydd y gallwn eu gwella.

O ran y dyfodol, byddwn yn parhau i:

- **Annog Datgelu Gwybodaeth am Gefndir:** Cynyddu'r nifer sy'n datgelu eu cefndir economaidd-gymdeithasol er mwyn deall ein gweithlu'n well a theilwra ein mentrau yn unol â hynny.
- **Gwella Arferion Recriwtio:** Rhoi strategaethau recriwtio mwy cynhwysol ar waith er mwyn denu a chefnogi ymgeiswyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- **Cefnogi Datblygiad Gyrfa:** Darparu rhaglenni datblygu gyrfa a mentora wedi'u targedu i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd cyfartal i dyfu a datblygu.

# Cymuned y Senedd – Perthyn ac Un Tîm

Mae gweithio mewn ffordd fwy ystwyth, ble mae rhai pobl yn gweithio'n gyfan gwbl ar y safle ac eraill yn dilyn model hyblyg, yn golygu ein bod wedi gorfod gweithio'n galed i gynnal ein diwylliant fel gweithle croesawgar a chyfeillgar a'r ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned y Senedd. Mae ein cydweithwyr yn defnyddio cyfarfodydd tîm rheolaidd, rhwydweithiau cefnogol, a fforymau ar-lein i gadw mewn cysylltiad ag eraill. Mae gennym dimau chwaraeon, clwb llyfrau a llawer o ffyrdd eraill i bobl gael ymdeimlad o berthyn.

Isod, rydym yn tynnu sylw at rai o'r meysydd lle rydym wedi parhau i feithrin cymuned gref yn y Senedd, gan ddod â phobl o bob rhan o'r sefydliad ynghyd i gyflawni ein gwerth corfforaethol o fod yn UN TÎM.

## Un Senedd: Golffwyr y Senedd yn Cadw'r Cwpan Mahogani

Ar 12 Ebrill 2024, cymerodd golffwyr y Senedd ran mewn gêm yn null "Cwpan Ryder", yr edrychwyd ymlaen yn eiddgar amdani, yn erbyn tîm Llywodraeth Cymru. Yn y fantol, y Cwpan Mahogani o fri, ac rydym yn falch o ddweud i dîm y Senedd lwyddo i ddal ei afael ynddi.



▲ Senedd golfers celebrate with the Mahogany Goblet.

## Un Senedd: Dod â Phobl Ynghyd Drwy Bêl-droed

Chwaraeodd ein tîm pêl-droed gwpwl o gemau proffil uchel eleni. Mae Capten ein Tîm. Colin Ashton, wedi rhannu ei feddyliau ynghylch pam mae'r tîm yn bwysig.

> Fe wnes i sefydlu tîm pêl-droed y Senedd gyda'r weledigaeth o ddod â staff o bob rhan o'r sefydliad ynghyd a chreu bond wrth chwarae gêm rydyn ni i gyd yn gwirioni arni. Yn ogystal â hynny, roedden ni'n anelu at godi arian i amryw o elusennau. Rwy'n falch o ddweud, mewn ychydig dros flwyddyn, ein bod wedi codi dros £7,000 i dair elusen anhygoel: Gofal Canser Tenovus, Mind Cymru, ac yn 2023, fe godon ni dros £1,000 ar gyfer cymorth yn Wcráin drwy'r Gronfa Cenedl Noddfa.
>
> Mae pêl-droed wastad wedi bod yn fwy na gêm i mi—mae'n ffordd o gysylltu pobl, meithrin cyfeillgarwch, a meithrin ymdeimlad cryf o weithio fel tîm. Mae arwain Tîm Pêl-droed y Senedd wedi bod yn brofiad gwerth chweil, gan ganiatáu i mi ddod â chydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad ynghyd mewn ysbryd o gyfeillgarwch a chynhwysiant.
>
> Un o'r pethau rwy'n fwyaf balch ohono yw sut mae'r tîm wedi esblygu i fod yn rhywle lle mae pawb yn teimlo'n gartrefol, waeth beth fo'u cefndir, eu hadran, neu eu rôl yn y Senedd. Mae gan bêl-droed y pŵer i chwalu rhwystrau, a thrwy ein gemau a'n sesiynau hyfforddi, rydym wedi creu amgylchedd lle y gall cydweithwyr ddod at ei gilydd, cael hwyl, a chefnogi ei gilydd ar y cae ac oddi arno.
>
> Mae ein hymdrechion yn ymestyn y tu hwnt i chwarae'r gêm—rydym yn defnyddio ein platfform i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned ehangach. Drwy amrywiol fentrau codi arian a gemau elusennol, rydym wedi gallu cefnogi achosion pwysig, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i gael effaith gadarnhaol y tu hwnt i'n gweithle. Mae gweld brwdfrydedd ac ymroddiad fy nghyd-chwaraewyr, nid yn unig mewn chwaraeon ond o ran eu parodrwydd i wneud gwahaniaeth, wedi bod yn wirioneddol ysbrydoledig.
>
> Fis Mai diwethaf, fe wnaethom gyflwyno twrnamaint pêl-droed cymysg 5 bob ochr yn arddull yr Ewros, a hon oedd ein cystadleuaeth gyfeillgar gymysg gyntaf. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, gan ddod â chwaraewyr o bob gallu ynghyd i fwynhau'r gêm mewn lleoliad hwyliog a chynhwysol.







▲ Footballers at the 5-a-side tournament

◀ Teams at Cardiff City Stadium

Mae Ffion Edwards, un o'r rhai a dderbyniodd wobr yn noson wobrwyo'r twrnamaint, wedi myfyrio ar y diwrnod:

> Gan nad oeddwn i wedi chwarae pêl-droed ers yr ysgol gynradd, i ddechrau roeddwn i'n eithaf nerfus i gymryd rhan yn nhwrnamaint pêl-droed yr Ewros. Fodd bynnag, o'r eiliad y cyrhaeddon ni'r ganolfan bêl-droed, teimlais fod pawb yn fy nghroesawu, ac roedd yn amlwg ein bod ni i gyd yno i gael ychydig o hwyl. Roedd y twrnamaint yn brofiad gwych—ces i gymaint o hwyl a chefais gyfle i gyfarfod a chysylltu â chydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad, pobl na fyddwn i efallai byth wedi dod i gysylltiad â nhw fel arall. Roedd yn ffordd wych o chwalu seilos y gweithle a mwynhau'r gêm gyda'n gilydd, ac rwy'n edrych ymlaen at y gemau a'r twrnameintiau cymysg sydd i ddod!

## Un Senedd: Diwrnod Gwenyn y Byd

Mae gennym wenyn yn y Senedd ers chwe blynedd bellach ac mae Gwenyn y Pierhead, a ddechreuodd fel prosiect i gynyddu eu niferoedd mewn amgylcheddau trefol, wedi bod yn gatalydd pwysig ar gyfer gwelliannau ehangach i fioamrywiaeth ar ein hystâd. Mae'r cychod gwenyn, sydd wedi'u lleoli ar do adeilad y Pierhead, yn cael eu cynnal a'u cadw a'u rheoli gan wirfoddolwyr o bob rhan o'r Senedd.







## Un Senedd: Dathlu Teulu'r Senedd

Mae mentrau fel ein platfform ENGAGE, pob cyfarfod staff, ein gwobrau cydnabyddiaeth blynyddol, llwyfannau a grwpiau cymdeithasol mewnol, Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle, dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, gweithgareddau i nodi Dydd Santes Dwynwen, a'r cystadlaethau yn eisteddfod y Senedd, oll yn helpu i wella ymdeimlad o berthyn a balchder yng nghymuned y Senedd.









## Pride Cymru

Roedd aelodau a chynghreiriaid ein rhwydwaith PLWS ar gyfer staff LHDTC+ yn falch o orymdeithio unwaith eto yng ngorymdaith Pride Cymru i ddangos cefnogaeth i gymunedau LHDTC+ yng Nghymru a thu hwnt ac i hyrwyddo'r Senedd fel cyflogwr a senedd gynhwysol.








## Gwirfoddoli ac allgymorth cymunedol

### Defnyddio diwrnodau gwirfoddoli i gefnogi'r gymuned



Cafodd Naomi Ewins, Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu'r Aelodau, (yn y canol) ganiatâd arbennig i dreulio deuddydd yn gwirfoddoli yn siop Nadolig Llaneirwg. Mae'r siop hon yn darparu anrhegion newydd sbon am ddim i deuluoedd lleol sy'n poeni am gost y Nadolig. Gall pob teulu ddewis prif anrheg i'w plentyn, llyfr neu becyn celf a chrefft, anrhegion hosan Nadolig ac anrheg iddyn nhw eu hunain. Yn 2024, cefnogodd y siop 250 o blant a 100 o oedolion. Mae'r siop yn rhoi urddas i deuluoedd ac yn lleddfu straen ar adeg o'r flwyddyn sy'n anodd yn ariannol.

### Casgliad ar gyfer banciau bwyd a chasgliad teganau

Ar gyfer y Nadolig, fe wnaethom gasglu bwyd a rhoddion unwaith eto ar gyfer banciau bwyd ledled Cymru. Roedd gan gydweithwyr y dewis o gyfrannu'n uniongyrchol i'w banc bwyd lleol, rhoi arian drwy ddefnyddio cod QR, neu roi cyfraniadau mewn bocys casglu ar draws ystâd y Senedd.




Diolch i haelioni ein staff, yr Aelodau a'u staff hwy, a'r contractwyr ar y safle, fe wnaethom gasglu bron i 100kg o fwyd a nwyddau ymolchi a anfonwyd i Fanc Bwyd Caerdydd.



Ddydd Mawrth 3 Rhagfyr, fe wnaethom ddathlu Diwrnod Cenedlaethol Rhoi drwy drefnu stondin gacennau i godi arian i Shelter Cymru, a chasgliad teganau i Ymchwil Canser Cymru. Cododd y stondin gacennau swm anhygoel o £145.88 i Shelter Cymru a rhoddwyd yr holl deganau i Ymchwil Canser Cymru.

## Estyn allan i hyrwyddo cynhwysiant

Mae ein Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol wedi croesawu myfyrwyr drwy gynllun Ymddiriedolaeth Addysg Gyfreithiol yr Arglwydd Edmund-Davies (LEDLET) a chynllun FAIRE, ac mae wedi creu cysylltiadau â threfnwyr y cynlluniau hynny dros sawl blwyddyn. Elusen annibynnol yw LEDLET a sefydlwyd yn 2013 i wasanaethu pobl ifanc sy'n byw yng Nghymru neu sydd â chysylltiad â Chymru ac sydd â diddordeb mewn ymuno â'r proffesiwn cyfreithiol. Nod y cynllun FAIRE yw cefnogi symudedd cymdeithasol, gan gynnig mynediad cyfartal i fyfyrwyr at brofiad gwaith â thâl a all baratoi'r ffordd ar gyfer gyrfa yn y sector cyfreithiol.

## Cymryd Rhan mewn Cynllun Mentora o Chwith

Mae Laurian Hubbard, Pennaeth Gwasanaethau Ymgysylltu a Chadeirydd ein Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant, wedi rhannu ei phrofiad o fod yn rhan o gynllun mentora o chwith i helpu i ddatblygu diwydiant cyfathrebu cynhwysol ac amrywiol.

Mae cymryd rhan yn rhaglen mentora o chwith Sefydliad Taylor Bennett wedi rhoi gwybodaeth werthfawr imi a bydd yn helpu ein hymagwydd at Amrywiaeth a Chynhwysiant. Cynhelir y rhaglen mewn partneriaeth â'r Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus ac mae'n para am 10 mis, gan baru uwch arweinwyr â gweithwyr proffesiynol Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol i amlygu gwerth cynghreiriaeth, meithrin diwylliant cynhwysol yn y gweithle, ac ysbrydoli safbwyntiau newydd o ran sut y mae sefydliadau'n ymdrin ag amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ar bob lefel.

Mae'r rhaglen wedi rhoi persbectif amhrisiadwy i mi na fyddwn wedi dod ar ei draws fel arall. Trafodwyd gwahanol agweddau ar gyfathrebu, sensitifrwydd diwylliannol, a'r heriau y mae grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn eu hwynebu. Roedd y sgyrsiau hyn yn agoriad llygaid ac yn tanlinellu pwysigrwydd deall a chofleidio amrywiaeth yn ei holl ffurfiau.

Yn dilyn y rhaglen, sefydlais is-grŵp mewnol ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant a oedd yn ymroddedig i wella ein strategaethau a'n hymgyrchoedd cyfathrebu ac ymgysylltu er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn taro tant gyda phoblogaeth amrywiol Cymru ac yn adlewyrchu'r boblogaeth honno. Drwy integreiddio safbwyntiau amrywiol yn ein gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu, rydym yn ymdrechu i greu amgylchedd mwy cynhwysol ac ymgysylltu â phobl Cymru mewn modd ystyrlon a chynhwysol.

—

*Laurian Hubbard, Pennaeth Gwasanaethau Ymgysylltu*

---

Mae gweithio gyda Laurian wedi bod yn gyfle gwych i rannu profiadau bywyd ar lefel bersonol ac ar lefel broffesiynol. Roedd ein sesiynau'n addysgiadol, yn bleserus, ac yn darparu lle diogel i siarad yn agored ac yn onest am yr hyn y gellir ei wneud i greu amgylcheddau gwaith mwy amrywiol, teg a chynhwysol, sy'n helpu i feithrin newid, creu ymdeimlad dyfnach o berthyn i gydweithwyr ac arddangos manteision hynny'n glir, yn fewnol ac yn allanol.

—

*Matt Geer, un o Fentoreion Sefydliad Taylor Bennett*



# Lle cynrychioliadol a chynhwysol i weithio ynddo



# Ein gweithlu

Ein nod yw sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu'r gymdeithas y mae'r Senedd yn ei gwasanaethu a'i bod yn cael ei chynrychioli ar bob lefel yn ein sefydliad. Mae'r ystod ehangaf o bobl yn ystyried Comisiwn y Senedd fel darpar gyflogwr deniadol sy'n cynnig profiad unigryw a gwerth chweil i weithwyr sy'n gweithio wrth galon democratiaeth yng Nghymru. Mae ein cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi cefnogi i gyrraedd eu llawn botensial.

## Defnyddio data

Mae ein system recriwtio ar-lein yn ein galluogi i gasglu data demograffig dienw ar bob ymgeisydd am swydd. Cesglir data mewnol drwy ein system Adnoddau Dynol/Cyflogres ac fe'u cyflwynir mewn ffordd sy'n golygu nad oes modd adnabod unrhyw unigolyn. Dim ond rhan fach iawn o'r adran Adnoddau Dynol sydd â mynediad at y data crai.

Cyhoeddir adroddiadau ar y gweithlu, ar recriwtio ac ar gyflog cyfartal ochr yn ochr â'r adroddiad naratif hwn.

## Niferoedd Staff y Comisiwn

| 31 Mawrth 2025 | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| 506 o staff | 503 o staff | 487 o staff |

## Rhyw a Rhywedd

### Rhaniad o ran rhywedd

51.8% o fenywod a 48.2% o ddynion. Mae menywod yn cynrychioli 50% o'r staff yn ein tri band cyflog uchaf.

### Patrwm Gweithio

| Menywod | | Dynion | |
|---|---|---|---|
| Amser llawn | Rhan-amser | Amser llawn | Rhan-amser |
| 72.9% | 27.1% | 94.3% | 5.7% |

### Recriwtio

### Cynigion Swyddi Allanol

| Menywod | | | Dynion | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2024-25** | 2023-24 | 2022-23 | **2024-25** | 2023-24 | 2022-23 |
| **54.9%** | 57.7% | 55.7% | **45.1%** | 42.3% | 44.3% |

### Cynigion Swyddi Mewnol

| Menywod | | | Dynion | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2024-25** | 2023-24 | 2022-23 | **2024-25** | 2023-24 | 2022-23 |
| **58.3%** | 50.0% | 53.8% | **41.7%** | 50.0% | 56.2% |

### Hunaniaeth Rhywedd ac Ailbennu Rhywedd

Eleni mae gennym nifer bach o staff sy'n arddel hunaniaeth traws anneuaidd, o gymharu â dim y llynedd. Roedd 3.2% o gyfanswm y ceisiadau am rolau allanol yn geisiadau gan ymgeiswyr a nododd eu bod yn draws o'i gymharu â 2.2% o ymgeiswyr yn 2024.

Roedd 0.7% o geisiadau allanol am swyddi yn geisiadau gan ymgeiswyr anneuaidd ond ni wnaed unrhyw gynigion swydd i'r ymgeiswyr hynny.

## Oedran

### Y Gweithlu

Mae 22.2% o'n gweithlu yn 51 oed a throsodd. Yr oedran cyfartalog yw 42.

| <21 | 21-30 | 31-40 | 41-50 | 51-60 | 61> |
|---|---|---|---|---|---|
| 0.4% | 12.2% | 32.2% | 33.1% | 17.4% | 4.8% |

### Recriwtio

#### Cynigion swyddi allanol

| <20 | 20-39 | 30-39 | 40-49 | 50-59 | 60> |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.0% | 39.2% | 35.3% | 13.7% | 5.9% | 2.0% |

#### Cynigion swyddi mewnol

| <20 | 20-39 | 30-39 | 40-49 | 50-59 | 60> |
|---|---|---|---|---|---|
| 0.0% | 12.5% | 25.8% | 37.5% | 4.2% | 0.0% |

## Anabledd

### Y Gweithlu

Datganodd 8.5% o staff bod ganddynt anabledd, sy'n gynnydd o gymharu â 7.4% yn 2024.

| Anabl | Ddim yn Anabl | Dim data |
|---|---|---|
| 8.5% | 82.4% | 9.1% |

### Recriwtio

#### Cynigion swyddi allanol

| 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| **17.6%** | 7.7% | 13.1% |

#### Cynigion swyddi mewnol

| 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| **4.2%** | 18.8% | 7.7% |

# Ethnigrwydd

### Y Gweithlu

Mae 5.9% o staff yn arddel hunaniaeth ethnig leiafrifol, o'i gymharu â 5.2% yn 2024 a 4.5% yn 2023.

| Lleiafrifoedd ethnig | Gwyn | Dim data |
|---|---|---|
| 5.9% | 89.7% | 4.3% |

Mae 33.3% o staff sy'n arddel hunaniaeth ethnig leiafrifol yn cael eu cyflogi yn ein band cyflog isaf (gradd Cynorthwy-ydd Tîm). Mae hyn wedi gostwng yn barhaus dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o 42.3% yn 2024, 45.5% yn 2023, 50% yn 2022, a 57.1% yn 2021.

### Recriwtio

Bu cynnydd yng nghanran cyfanswm y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol: o 13.0% o gyfanswm y ceisiadau yn 2022-2023 i 16.2% yn 2023-2024 a 20.2% yn 2024-2025.

**Cynigion swyddi allanol**

| 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| 7.8% | 11.5% | 4.9% |

Cynigion swyddi mewnol

| 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| **4.2%** | 6.3% | 0.0% |

# Crefydd / Cred

### Y Gweithlu

Mae staff sy'n uniaethu â chrefydd / cred arall (Agnostig, Anffyddiwr, Hindŵ, Mwslim, Bwdhydd, Zoroastriad) wedi cynyddu o 10.9% y llynedd.

| Dim crefydd / cred | Cristnogaeth | Crefydd / cred arall | Dim data |
|---|---|---|---|
| 39.9% | 27.5% | 12.6% | 20.6% |

### Recriwtio

#### Cynigion swyddi allanol

| Dim crefydd / cred | Cristnogaeth | Crefydd / cred arall | Dim data |
|---|---|---|---|
| 45.1% | 33.3% | 11.8% | 9.8% |

#### Cynigion swyddi mewnol

| Dim crefydd / cred | Cristnogaeth | Crefydd arall | Mae'n well gennyf beidio â dweud / Heb ateb |
|---|---|---|---|
| 33.3% | 37.5% | 20.8% | 8.3% |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

### Y Gweithlu

Mae 6.1% o staff yn arddel hunaniaeth LHDC+, o'i gymharu â 5.4 yn 2024 a 4.7% yn 2023.

| LHDC+[2] | Heterorywiol / syth | Mae'n well gennyf beidio â dweud / Heb ateb |
|---|---|---|
| 6.1% | 80.2% | 13.6% |

### Recriwtio

#### Cynigion swyddi allanol

| 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| 15.7% | 13.5% | 13.1% |

#### Cynigion swyddi mewnol

Cafwyd 11.3% o geisiadau mewnol gan bobl LHDC+

| 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| 0.0% | 18.8% | 0.0% |

[2] LHDC+: Cyfeiriadedd rhywiol Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Cwiar (neu Rywedd-gwestiynol) neu gyfeiriadedd rhywiol arall nad yw'n heterorywiol

## Adrodd ar y Bwlch Cyflog

### Y Bwlch Cyflog Rhywedd - Cyflog Fesul Awr

| | 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Bwlch Cyflog Rhywedd Cymedrig** | **-3.94%** | -5.33% | -4.8% | -6.5% | -5.3% |
| **Y Bwlch Cyflog Rhywedd Canolrifol** | **0.0%** | 0.0% | 0.0% | -9.75% | -9.8% |

### Y Bwlch Cyflog Ethnigrwydd – Cyflog Fesul Awr

| | 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Bwlch Cyflog Ethnigrwydd Cymedrig** | **18.56%** | 23.2% | 23.5% | 26.1% | 28.1% |
| **Y Bwlch Cyflog Ethnigrwydd Canolrifol** | **20.17%** | 26.44% | 23.6% | 35.8% | 38.9% |

### Y Bwlch Cyflog Anabledd – Cyflog Fesul Awr

| | 2024-25 | 2023-24 | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| **Y Bwlch Cyflog Anabledd Cymedrig** | **-6.34%** | 4.17% | 1.28% | -2.87% |
| **Y Bwlch Cyflog Anabledd Canolrifol** | **0.0%** | 0.0% | 0.0% | 0.0% |

## Anabledd

Eleni, rydym yn darparu gwybodaeth ychwanegol ac yn cadarnhau gwybodaeth yn y cylch adrodd hwn ynghylch anabledd, iechyd meddwl a llesiant meddyliol sy'n bodloni gofynion yn Fframwaith Adrodd yn Wirfoddol ar Anabledd, Iechyd Meddwl a Llesiant[3]:

- Mae'r ffurflen manylion personol ar iTrent (system hunanwasanaeth gweithwyr) yn gofyn i weithwyr a oes ganddynt anabledd ac, os felly, beth yw natur yr anabledd / anableddau;
- Gall gweithwyr gael mynediad at addasiadau rhesymol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol;
- Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac rydym yn gweithredu'r cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer rôl;
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle, sef Embrace a Mindful, a grwpiau cymorth ar-lein i weithwyr er mwyn sicrhau cynhwysiant pellach i staff anabl ac ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am swyddi gyda ni;
- Rydym yn cyhoeddi ein gwybodaeth am y bwlch cyflog anabledd ac yn monitro cyflog ar draws y nodweddion gwarchodedig drwy ddadansoddiadau cyflog cyfartal rheolaidd; ac
- Rydym yn monitro data recriwtio mewnol ac allanol ar gyfer ymgeiswyr anabl ac yn archwilio cyfraddau cynnydd mewn cyflogau.

[3] Fframwaith Adrodd yn Wirfoddol ar Anabledd, Iechyd Meddwl a Llesiant (publishing.service.gov.uk) (Saesneg yn unig)

## Iechyd meddwl

- Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, mae absenoldeb am resymau'n ymwneud ag iechyd meddwl fel canran o gyfanswm yr absenoldebau wedi cynyddu ychydig o 42.3% i 45.9% yn 2023-2024.
- Profodd 9.3% o staff y Comisiwn gyflwr iechyd meddwl a arweiniodd at absenoldeb oherwydd salwch rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025. Yr achos mwyaf o salwch meddwl yn ôl y data sydd gennym yw 'Rhesymau personol', fodd bynnag rydym yn cydnabod nad oes gennym set ddata gyflawn a byddwn yn gweithio i sicrhau bod salwch yn cael ei gofnodi'n gywir yn y dyfodol.
- Mae MINDFUL, ein rhwydwaith iechyd meddwl a llesiant meddyliol, wedi cynnig sesiynau galw heibio rhithwir ac wyneb yn wyneb wythnosol rheolaidd i staff, gyda ffocws ychwanegol ar addasu'r cymorth yn rhithwir, er mwyn parhau i annog cysylltiad a rhannu adnoddau ar gyfer gwell llesiant meddyliol a pherfformiad gwaith i'r rhai sy'n gweithio gartref.
- Rydym wedi codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwrnodau cynhwysiant, fel Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl ac wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl. Er enghraifft, gwahoddodd MINDFUL gydweithwyr i gymryd hoe o'u gwaith, i fwynhau gweithgareddau meddwlgarwch fel peintio dotiau mandala, a lliwio meddwlgarwch, gan gysylltu â chydweithwyr ar yr un pryd.
- Mae ein darpariaeth hyfforddiant yn cynnwys cyrsiau fel Iechyd Meddwl i Reolwyr Llinell. Rydym hefyd yn cynnwys pynciau cysylltiedig yn ein rhaglenni hyfforddiant eraill i sicrhau bod cynhwysiant yn cael ei ystyried bob amser, ym mhob ffordd.
- I gydnabod Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, neilltuwyd sesiynau penodol o'n hwythnos Dysgu yn y Gwaith i feithrin llesiant meddyliol.

## Arolygon staff

### Arolwg Staff Comisiwn y Senedd

Mae ein harolwg staff yn rhoi gwybodaeth inni sy'n ein helpu i ddeall a gwella profiad ac ymgysylltiad y staff, ac mae'n darparu canlyniadau a chynlluniau gweithredu wedi'u teilwra i themâu allweddol gan gynnwys Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth, Rhannu Gwybodaeth, Galluogi, Llesiant, Ennyn Balchder, a Boddhad Gwaith.

Gyda chyfradd ymateb o 73%, roedd sgôr ymgysylltiad cyffredinol y staff yn 74% o fewn y fframwaith Chwe Cham i Hapusrwydd yn y Gweithle. Mae hyn yn parhau i fod yn arwydd cryf o ddiwylliant a chyfranogiad cadarnhaol yn y gweithle. Parhaodd y mynegai ymgysylltu â staff i adlewyrchu diwylliant sefydliadol cryf, yn debyg i gyrff seneddol a chyrff gwasanaeth sifil eraill.

Mae'r canlyniadau allweddol sy'n gysylltiedig ag Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cynnwys y canlynol:

- Rwy'n teimlo'n hapus yn y gwaith: ymatebodd 72% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn.
- Mae fy llesiant yn bwysig i'm cyflogwr: ymatebodd 73% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn.
- Rwy'n cael fy nhrin â pharch: ymatebodd 78% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn.
- Mae fy safbwyntiau'n cael eu clywed yn y gwaith: ymatebodd 72% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn.
- Mae Comisiwn y Senedd wedi ymrwymo i greu gweithle amrywiol a chynhwysol: ymatebodd 78% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn.
- Rwy'n credu bod Comisiwn y Senedd yn parchu gwahaniaethau rhwng unigolion (e.e. diwylliant, ffyrdd o weithio, cefndiroedd, syniadau, ac ati): ymatebodd 77% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i feithrin gweithle sy'n gynhwysol, yn gefnogol, ac yn parchu gwahaniaethau rhwng unigolion. Er bod ein canlyniadau'n parhau i fod yn gadarnhaol, byddwn yn parhau i adeiladu ar y cynnydd hwn drwy wrando ar adborth gan staff a chymryd camau i wella profiad o'r gweithle i bawb.

## Arolwg Pwls Llesiant

Yn ogystal â'r arolwg staff, rydym yn cynnal arolygon pwls llesiant sy'n darparu gwybodaeth allweddol i'n helpu i ddeall a ydym yn cyflawni amcanion Strategaeth Llesiant 2022-25. Amcan cyffredinol y strategaeth yw:

> *'Diogelu, hyrwyddo a chefnogi gallu sefydliadol trwy sicrhau diwylliant ac amgylchedd mewn gweithle lle mae iechyd, diogelwch a llesiant yn cael eu hyrwyddo gan bawb, lle mae pobl yn gallu dod â'u holl hunan i'r gwaith, a lle mae staff yn cael eu galluogi a'u grymuso i wneud dewisiadau sy'n eu helpu i fyw'n dda a gweithio'n dda.'*

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i fod yn ymrwymedig i feithrin gweithle iach a chynhwysol. Mae ein sgôr gyfartalog ar gyfer iechyd corfforol yn 3.49 allan o 5, sy'n awgrymu lefel gyson ar draws pob arolwg pwls. Yn yr un modd, mae'r sgôr gyfartalog ar gyfer iechyd meddwl wedi cynyddu i 3.31 allan o 5, sy'n gynnydd ers yr arolwg diwethaf gan gynnal lefel gyson dros y pedair blynedd diwethaf.

Rydym yn falch o adrodd y bu gostyngiad mewn straen yn gysylltiedig â gwaith, gyda 50% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod wedi profi straen yn gysylltiedig â'u swydd, sy'n ostyngiad o gymharu â 55% yn Hydref 2023. Llwyth gwaith yw'r prif ffactor sy'n gyfrifol am straen o hyd, a nodwyd hynny gan 48% o'r ymatebwyr, ond bu gostyngiad o 13% yn y ffigur hwn. O blith y 185 o ymatebwyr a oedd yn profi straen yn gysylltiedig â gwaith neu'n rhannol gysylltiedig â gwaith, roedd 55% yn fenywod, 30% yn wrywod, nododd 2% ei bod yn well ganddynt beidio â dweud, ac ni wnaeth 13% ymateb.

Yn nodedig, mae 94% o'n staff yn cytuno bod eu rheolwr llinell yn poeni am eu llesiant. Mae hyn yn ostyngiad bach ond mae'n dal i fod yn arwydd cryf o'r amgylchedd cefnogol yr ydym yn ymdrechu i'w gynnal.

Mae'r diwylliant yn ein gweithle yn parhau i fod yn destun balchder. Mae 70% o'r staff yn credu bod y sefydliad yn gwneud gwaith da o ran gwreiddio llesiant yn niwylliant y gweithle. Mae cynhwysiant yn parhau i fod yn gonglfaen i'n gwerthoedd, gydag 84% o staff yn teimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain yn y gwaith. Ar ben hynny, mae 94% o staff yn teimlo bod eu tîm yn eu cefnogi a bod ganddynt gysylltiad ag ef, sy'n gynnydd o gymharu â 93%.

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym wedi ymrwymo i gynyddu cyfraddau cyfranogi ar draws pob maes gwasanaeth a gwella ymwybyddiaeth o ganllawiau llesiant. Byddwn yn parhau i gynnig sesiynau ymwybyddiaeth iechyd meddwl sefydliadol

ar reoli straen, gwydnwch ac ymwybyddiaeth ofalgar. Yn ogystal â hynny, byddwn yn darparu hyfforddiant ar lesiant wedi'i dargedu at reolwyr, gan ganolbwyntio ar empathi, gwrando gweithredol, llesiant meddyliol, y menopos, a phroblemau iechyd eraill yn gysylltiedig â'r mislif, a llesiant cyffredinol.

## Arolwg Urddas a Pharch

Roedd yr arolwg Urddas a Pharch yn agored i holl staff Comisiwn y Senedd yn ogystal â'r Aelodau a'u staff. Mae'r wybodaeth isod yn ymwneud â staff y Comisiwn yn unig ac roedd y gyfradd ymateb yn 66%. Mae'r canlyniadau'n dangos y canlynol:

- Roedd 82% o'r staff yn cytuno â'r datganiad eu bod yn gwybod sut i roi gwybod am ymddygiad amhriodol.
- Pan ofynnwyd a oedd pobl wedi profi neu wedi gweld ymddygiad amhriodol ond heb roi gwybod i neb amdano, y rheswm a nodwyd amlaf oedd ei fod wedi cael ei daclo yn y fan a'r lle, felly nid oedd angen rhoi gwybod i neb amdano. Mae'r canlyniadau'n dangos bod mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am sut i roi gwybod am ymddygiad amhriodol yn haws cael gafael arni.
- Arhosodd canran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent erioed wedi profi ymddygiad amhriodol yn y gweithle yn ystod y 12 mis blaenorol yr un fath, sef 83%.
- O'i gymharu â 2023, mae nifer yr ymatebwyr sydd wedi gweld ymddygiad amhriodol ar sawl achlysur wedi cynyddu.
- At ei gilydd, roedd 7% o'r ymatebwyr wedi profi ymddygiad amhriodol gan aelodau'r cyhoedd yn y gwaith.
- O'i gymharu â 2023, bu cynnydd yng nghanran y staff a ddywedodd eu bod wedi cael eu herio am ymddwyn yn amhriodol, o 1% yn 2023 i 5% eleni. Mae canran y staff sy'n dweud eu bod wedi herio rhywun am ymddwyn yn amhriodol wedi cynyddu ychydig i 9% o'r ymatebwyr.
- Er bod canran gyffredinol yr ymatebwyr a nododd fod yr ymddygiad amhriodol yn gysylltiedig â nodwedd warchodedig yn isel, mae angen i'r gwaith ganolbwyntio'n benodol ar ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhywedd / rhywiaeth. Mae gwaith wedi'i gynllunio i gyflwyno hyfforddiant ar aflonyddu rhywiol a mwy o ymwybyddiaeth am y

llwybrau sydd ar gael i staff mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol yn y gwaith.

Yn dilyn yr arolwg, mae gwaith yn parhau ar nifer o feysydd cysylltiedig, gan gynnwys:

- Darparu canlyniadau ar feysydd gwasanaeth penodol i bob Pennaeth Gwasanaeth
- Parhau â'r adolygiad o hyfforddiant ar urddas a pharch, er mwyn sicrhau bod fframwaith ar gael sy'n darparu rhyw fath o hyfforddiant yn flynyddol, gan gynnwys beth yw ymddygiad amhriodol a nodi'r mecanweithiau adrodd anffurfiol a ffurfiol.
- Parhau i hyrwyddo'n rheolaidd opsiynau anffurfiol ar gyfer datrys problemau, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd meysydd gwasanaeth i hyrwyddo’r rhain a chynnwys hyn mewn hyfforddiant. Gan gynnwys beth i'w wneud ar yr adeg y bydd rhywun yn ymddwyn mewn ffordd sy'n gwneud i rywun deimlo'n anghyfforddus / teimlo ei fod yn cael ei amharchu. Bydd gohebiaeth mwy rheolaidd ynghylch y broses a sut i gael mynediad at gyngor hefyd yn cael eu darparu.
- Gwneud cysylltiadau rhwng urddas a pharch a datblygu fframwaith cymhwysedd, yn ogystal â hyrwyddo mentrau fel adborth 360˚, proffiliau mewnwelediadau ac ati, i geisio cynyddu ymwybyddiaeth y staff a rhag-weld problemau.

## YMLAEN – ein Hinterniaeth i Raddedigion Ethnig Lleiafrifol

Croesawodd Ymlaen, ein Rhaglen Interniaeth i Raddedigion Ethnig Lleiafrifol, ei thrydedd carfan o raddedigion ym mis Mawrth 2025. Mae'r fenter hon yn rhan allweddol o'n hymrwymiad i feithrin gweithlu mwy amrywiol a chynrychioliadol yn y gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn falch o fod wedi cydweithio unwaith eto â Chymrodoriaeth Windsor, sefydliad elusennol sy'n dylunio ac yn cyflwyno rhaglenni datblygiad personol ac arweinyddiaeth arloesol i gefnogi unigolion talentog o gymunedau amrywiol i gyrraedd eu llawn botensial. Er mwyn ehangu ein gwaith allgymorth, fe wnaethom hyrwyddo ein hinterniaeth eleni yn ein digwyddiad Mis Hanes Pobl Dduon, Reclaim the Narrative, lle y gwnaethom gysylltu ag arweinwyr cymunedol lleol. Drwy ein cydweithrediad parhaus â Chymrodoriaeth Windsor a'i rhwydweithiau, rydym yn cryfhau ein hymdrechion i greu llwybrau hygyrch i'n sefydliad a grymuso lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector cyhoeddus.

Drwy gydol eu hinterniaeth, caiff yr interniaid eu hannog i gymryd rhan mewn amrywiol brosiectau, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chyfrannu eu safbwyntiau unigryw at ein gwaith. Drwy feithrin amgylchedd cynhwysol a chefnogol, rydym yn ymdrechu i'w grymuso i ffynnu a gwneud cyfraniadau ystyrlon, nid yn unig yn ystod eu hamser gyda ni, ond yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol hefyd.

Yr hyn a'm denodd at Raglen Interniaeth Ymlaen oedd y cyfle i ddysgu yn yr amgylchedd cywir. Rwyf hefyd wedi clywed adborth gwych gan interniaid blaenorol a wnaeth elwa'n fawr o'u hamser yn y Senedd.

—

*Saeed, Intern TGCh*

---

Drwy'r profiad hwn, rwy'n gobeithio y byddaf yn dysgu llawer amdanaf fi fy hun ac yn datblygu sgiliau a fydd, gobeithio, yn rhoi darlun cliriach i mi o'r trywydd rwyf eisiau ei ddilyn yn y dyfodol.

—

*Megan, Intern Cyfathrebu*

---

Cefais fy nenu at Interniaeth Ymlaen oherwydd ei fod yn gyfle gwych i ddatblygu fy sgiliau a bodo yn rhan o dîm clos a chanddo angerdd tuag at Gymru a'i phobl. Mae'r interniaeth yn rhoi cyfle i mi gael cipolwg ar wleidyddiaeth Cymru ac ymgysylltu â llawer o staff a rhanddeiliaid—cyfle nad oeddwn am ei golli!

—

*Shoruk, Intern Ystadau a Chyfleusterau*

---

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ddefnyddio fy amser yn y Senedd i ddysgu cymaint ag y gallaf am sut i ymgysylltu'n ystyrlon â thrawstoriad cynrychioliadol o gymdeithas, ac i gyfrannu at y strategaeth ymgysylltu yn barod ar gyfer yr etholiad sydd i ddod.

—

*Fahadi, Intern Ymgysylltu*

## Polisïau cynhwysol

Rydym yn parhau i adolygu a datblygu polisïau pobl sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac sy'n sicrhau tegwch a chynhwysiant. Yn unol â hynny, cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bob polisi newydd neu ddiweddariad, yn ogystal a phroses ymgynghori helaeth drwy ein Hundebau Llafur a'n rhwydweithiau mewnol. Mae enghreifftiau o bolisïau a ddatblygwyd neu a ddiweddarwyd yn ystod 2024-25 yn cynnwys Polisi Cwynion Cyflogaeth, Polisi Gweithio Hyblyg, Polisi Mamolaeth, Polisi Tadolaeth, Polisi Gweithio Hybrid, Polisi Salwch Tymor Byr, Polisi Salwch Hirdymor, Polisi Gweithio Gartref, Polisi Urddas a Pharch a Pholisi Apeliadau. Mae polisïau wedi cael eu datblygu i gefnogi'r broses o gyflwyno Deddf Gofal Newyddenedigol (Absenoldeb a Thâl).

### Gwelliannau i absenoldeb a thâl mamolaeth a thadolaeth

O 1 Ionawr 2025 ymlaen, cynyddwyd ein hawliau tâl mamolaeth o chwe mis o dâl llawn i naw mis o dâl llawn, a chynyddodd tâl tadolaeth / cyd-riant o dair wythnos o dâl llawn i bedair wythnos o dâl llawn. Mae'r hawliau hyn yn berthnasol o ddiwrnod cyntaf y gyflogaeth (h.y. hawl diwrnod cyntaf, heb unrhyw ofyniad am gyfnod gwasanaeth).

### Pobl a Thâl – System Adnoddau Dynol/y Gyflogres

Ym mis Ionawr 2025, cyflwynwyd platfform hunanwasanaeth Adnoddau Dynol newydd ac mae'n cynnig mwy o swyddogaethau fel Datganiadau o;r Holl Fuddion a Slipiau Cyflog Rhyngweithiol. Mae'r system hon yn caniatáu casglu data ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan ein cefnogi i gyflawni ein rhwymedigaethau statudol i fonitro a dadansoddi demograffeg ein gweithlu.

### Dyfarniad Cyflog

Yn dilyn cwblhau ymarfer meincnodi, a nododd fod cyflogau swyddi ar raddau is yn llai na chyflogau swyddi ar raddau tebyg o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru, cytunodd y Comisiwn ar godiad cyflog cyfunol, wedi'i dargedu, i'n cydweithwyr yn y bandiau cyflog is ar gyfer 2024-25. Yn ogystal â sicrhau tegwch ar draws pob gradd, mae'r codiadau cyflog hyn yn cefnogi ymrwymiad y Comisiwn i barhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol.

"Ym mis Medi 2024, newidiais o weithio wythnos amser llawn safonol i wythnos gywasgedig amser llawn, gan weithio 37 awr dros bedwar diwrnod gwaith, am resymau'n ymwneud â gofal plant. Mae fy nhîm wedi bod yn wych o ran diwallu fy anghenion, ac rwy'n ddiolchgar iawn am y polisi a'r ymrwymiad i'w ddefnyddio.

Roedd dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb mamolaeth yn newid mawr i mi. Mae dealltwriaeth fy rheolwr llinell a'r uwch dîm wedi bod yn amhrisiadwy. Cefais fy nghefnogi'n llwyr yn fy nghais i leihau fy oriau, ac mae hynny wedi fy ngalluogi i ymdopi â'r cyfnod hwn ac wedi ei wneud yn bleserus. Mae'r trefniadau hyblyg a'r anogaeth a gefais wedi bod yn hanfodol i'm helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau gwaith a bywyd..

Rwy'n dioddef o gyflwr rhewmatolegol dirywiol. Un o'r symptomau yw blinder yn gynnar yn y bore sydd wedi gwaethygu'n raddol i'r graddau fy mod i'n ei chael hi'n anodd gweithio cyn 10 y bore. Yn dilyn trafodaeth gyda fy rheolwyr, cytunwyd y byddai ymddeol yn rhannol yn ateb ardderchog imi. Rwyf bellach wedi lleihau fy oriau gwaith heb i hynny effeithio ar fy incwm. Nawr, mae gen i fwy o egni ar gyfer fy ngwaith ac ar gyfer cyfrifoldebau a gweithgareddau teuluol ar benwythnosau. Rwy'n ddiolchgar iawn am y ddealltwriaeth a'r gofal am fy llesiant, a fydd yn fy helpu i symud ymlaen tuag at ymddeoliad llawn ymhen 18 mis.

Yn ystod fy amser yn y tîm diogelwch, mae pobl wedi gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ynglŷn â fy nghredoau a'm harferion crefyddol. Mae fy rheolwyr wedi bod yn ystyriol bob amser ac wedi fy ngalluogi i gymryd seibiannau drwy gydol fy sifft er mwyn i mi allu gweddïo 5 gwaith y dydd. Yn ystod mis sanctaidd Ramadan, rwyf wedi gallu newid fy sifftiau i'w gwneud hi'n haws i mi oresgyn yr her o ymprydio drwy gydol y dydd. Rwyf wedi gallu cymryd amser o'r gwaith er mwyn cwtogi fy wythnos, gan ganiatáu imi gael digon o orffwys a gwneud y gorau o'r mis pwysig hwn drwy dreulio amser gyda'r teulu ac yn y mosg.

## Achrediadau

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae Comisiwn y Senedd wedi cael ei gydnabod fel Un o'r 30 Cyflogwr Gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio ac wedi'i ailachredu fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae'r ddau achrediad yn cynnwys dadansoddiad o'n polisïau staff cynhwysol a'r cymorth sydd ar gael gennym i staff

Yn 2024, fe wnaethom lofnodi'r siarter 'Dying to Work', sy'n nodi'r ffordd y dylid trin a chefnogi gweithiwr pe bai'n cael diagnosis o salwch terfynol.




Rwy'n falch o fod wedi llofnodi'r Siarter Dying to Work ar ran Senedd Cymru i gadarnhau ein hymrwymiad i amddiffyn a chefnogi staff yn ystod unrhyw salwch terfynol. Mewn cyfnod o argyfwng ym mywydau pobl, y peth olaf rydyn ni ei eisiau yw iddyn nhw boeni am waith.

—

*Manon Antoniazzi,*
*Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd*





# Senedd Hygyrch, Gynhwysol a Byd-eang



# Mae'r Senedd yn sefydliad cynhwysol a hygyrch

Mae'r Senedd yn sefydliad cynhwysol a hygyrch sy'n nodi ac yn dileu unrhyw rwystrau sy'n atal dinasyddion rhag cymryd rhan yn ei waith mewn ffordd sy'n ystyrlon iddynt. Mae pobl yn deall gwaith y Senedd a sut y gallai effeithio arnynt hwy a'u cymunedau.

## Pwyllgor Senedd y Dyfodol

Sefydlwyd Pwyllgor y Senedd yn y Dyfodol ar 16 Hydref 2024, gyda chylch gwaith (ymysg pethau eraill) i ystyried *"[...] hygyrchedd busnes seneddol i'r Aelodau" yn y Seithfed Senedd [...]*", a "*[...] atebion i rwystrau (gwirioneddol a chanfyddedig) a all amharu ar allu'r Senedd i gynrychioli pobl o bob cefndir, profiad bywyd, dewis a chred, neu sydd â'r potensial i wneud hynny, gan gynnwys ystyried fersiynau drafft a therfynol y canllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol [...]".*

Mae staff y Comisiwn wedi bod yn cefnogi gwaith Pwyllgor Senedd y Dyfodol, gan gynnwys yn y meysydd hyn.

## Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

### "Dy Lais" – gweithio gyda chymunedau agored i niwed

Dyma oedd trydedd flwyddyn ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu gyfredol, sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth, cynyddu dealltwriaeth ac annog cyfranogiad.

Eleni, fe wnaeth ein timau ymdrechion cynyddol i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt o bosibl yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn draddodiadol gan y Senedd – un o nodau allweddol ein strategaeth.

- Rydym wedi gweithio gyda phobl anabl o bob cwr o Gymru i gasglu eu barn ar y rhwystrau y maent yn eu hwynebu i gyflogaeth gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cynhwysol, gan gynnwys grwpiau ffocws ar-lein ac wyneb yn wyneb a chyfweliadau un-i-un.

- Fe wnaethom gynorthwyo aelodau o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr i rannu eu barn ar y ddarpariaeth o safleoedd. Drwy gynnal grŵp ffocws hybrid dilynol yn y Senedd, fe wnaethom gasglu profiadau bywyd aelodau'r gymuned.
- Er mwyn cefnogi gwaith Pwyllgorau'r Senedd rydym hefyd wedi sicrhau bod lleisiau grwpiau eraill sydd ar y cyrion, fel plant coll a phlant wedi'u troseddoli, pobl â chyflyrau iechyd cronig ac arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain wedi cael lle canolog yn y trafodaethau.

## Cymorth i Aelodau - Pwyllgorau, Ymchwil a Busnes y Senedd

### Gwaith Ymgysylltu'r Pwyllgorau

Mae ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cefnogi pwyllgorau'r Senedd drwy ddylunio a chyflwyno rhaglenni ymgysylltu sy'n cyflwyno â safbwyntiau amrywiol i'r broses o lunio polisïau. Mae timau ein pwyllgorau yn gweithio gyda'n tîm ymgysylltu i ddeall agweddau, ymddygiad a phrofiadau pobl ledled Cymru.

Isod ceir rhai enghreifftiau o'n gwaith ymgysylltu â phwyllgorau sy'n dangos sut yr ydym yn ymdrechu i wneud gwaith pwyllgorau'r Senedd yn hygyrch i bawb.

**Mynediad Plant Anabl at Ofal Plant ac Addysg: Grŵp Cynghori Ar-lein**

Sefydlodd ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion grŵp cynghori ar-lein i gefnogi ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i fynediad plant anabl at ofal plant ac addysg. Roedd y grŵp yn cynnwys 14 aelod o 11 awdurdod lleol ledled Cymru, rhwng 17 a 55 oed. Daeth â phobl ifanc anabl a rhieni neu ofalwyr plant a phobl ifanc anabl ynghyd. Rhannodd y cyfranogwyr eu profiadau uniongyrchol o'r rhwystrau i gael mynediad at ofal plant ac addysg.

Er mwyn sicrhau hygyrchedd, rhoddwyd rhaglen gymorth gynhwysfawr ar waith. Cyn y cyfarfod cyntaf, mynychodd yr aelodau 'Weithdy Croeso' ar-lein i gyflwyno eu hunain, i godi pryderon, ac i ddysgu am strwythur y grŵp. Roedd yr holl wybodaeth mewn iaith glir, gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin, canllawiau i gyfranogwyr, a diweddariadau.

Gweithiodd ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyda sefydliadau’r trydydd sector i sicrhau hygyrchedd, gan gynnig deunyddiau ysgrifenedig ymlaen llaw, seibiannau rheolaidd oddi wrth sgriniau, a chymorth digidol lle bo angen. Cyfarfu’r grŵp ar bum cam allweddol yn ystod yr ymchwiliad, gan adolygu tystiolaeth a llunio argymhellion. Dylanwadodd mewnbwn aelodau'r grŵp ar adroddiad terfynol y

Pwyllgor ac ymateb y llywodraeth, gan sicrhau bod lleisiau pobl ifanc anabl a'u teuluoedd yn cael eu clywed wrth wneud penderfyniadau.

**Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Gefnogi Pobl â Chyflyrau Cronig**

Bu ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o sefydliadau ac elusennau, gan gynnwys Cymdeithas Alzheimer, y Gynghrair Clefydau Rhewmatig Awtoimiwn Prin, British Heart Foundation, a Thriniaeth Deg i Fenywod Cymru. Drwy gydweithio â'r grwpiau hyn, fe wnaethom alluogi pobl ledled Cymru sy'n byw gyda chyflyrau cronig neu'n gofalu am rywun â chyflwr cronig i rannu eu profiadau.

Er mwyn sicrhau bod ystod eang o leisiau'n cael eu clywed, cynhaliwyd 31 o gyfweliadau unigol a hwyluswyd tri grŵp ffocws, yn cynrychioli dros 20 o gyflyrau cronig gwahanol. Roedd y rhain yn cynnwys clefydau hunanimiwn fel sgleroderma a lwpws, gwahanol fathau o ganser gan gynnwys canser y fron, lewcemia, melanoma, a chanser y prostad, yn ogystal â chlefyd cronig yr arennau, dementia, diabetes, endometriosis, ffibromyalgia, clefyd llidiol y coluddyn, Covid hir, cyflyrau iechyd meddwl, cyflyrau cyhyrysgerbydol fel arthritis, enseffalomyelitis myalgig, a chlefydau anadlol gan gynnwys asthma.

Roedd meithrin ymddiriedaeth yn allweddol. Cynhaliwyd llawer o gyfweliadau ac ymwelwyd â rhai cyfranogwyr yn eu cartrefi, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Helpodd y dull hwn i ddileu rhwystrau a galluogi llawer o unigolion i ymgysylltu â gwaith y Senedd am y tro cyntaf.  Chwaraeodd profiadau'r cyfranogwyr ran allweddol yn y broses o lunio argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod profiadau bywyd wedi dylanwadu ar benderfyniadau polisi.

**Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i Anabledd a Chyflogaeth**

Edrychodd y Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed o ran lleihau rhwystrau i gyflogaeth i bobl anabl ac archwiliodd beth arall y gellid ei wneud i wella mynediad at waith. Er mwyn sicrhau bod profiad bywyd wedi dylanwadu ar yr ymchwiliad hwn, hwylusodd ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un gyda phobl anabl ledled Cymru. Cynhaliwyd y rhain wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan ganiatáu i gyfranogwyr ymgysylltu mewn ffyrdd a oedd yn addas i'w hanghenion.

Roedd gwneud y broses ymgysylltu yn gwbl hygyrch a chynhwysol yn flaenoriaeth. Bu ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn gweithio'n agos gyda chyfranwyr a sefydliadau arbenigol i nodi'r ffyrdd gorau i bobl gymryd rhan. Roedd hyn yn golygu addasu fformatau grwpiau ffocws i gael gwared ar rwystrau i gyfranogiad a sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ar gael mewn fformat Hawdd ei Ddeall.

Dechreuwyd ymgysylltu â phobl anabl yn gynnar yn yr ymchwiliad, fel y gallai eu profiadau a'u mewnwelediadau lywio cyfeiriad gwaith y Pwyllgor o'r cychwyn cyntaf. Dylanwadodd y dystiolaeth a gasglwyd yn uniongyrchol ar adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor, gan sicrhau bod lleisiau pobl anabl yn ganolog i'r trafodaethau ar sut i wella cyfleoedd cyflogaeth.

**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Lwybrau at Addysg a Hyfforddiant Ôl-16**

Archwiliodd y Pwyllgor ansawdd y wybodaeth a'r canllawiau sydd ar gael i bobl ifanc sy'n ystyried addysg a hyfforddiant ôl-16. Cynlluniodd ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddau arolwg, un ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid ac un arall ar gyfer pobl ifanc, i gofnodi eu profiadau.

Gan gydweithio'n agos ag arbenigwyr academaidd sy'n gweithio'n agos gyda phobl ifanc ag anghenion ychwanegol, trefnodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion fersiwn Hawdd ei Deall o'r arolwg. Er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion hygyrchedd, ymgynghorodd y tîm â'r arbenigwr ynghylch ei fformat a'i eglurder. Nod y dull cydweithredol hwn oedd dileu rhwystrau i gyfranogiad a sicrhau y gallai pob person ifanc, waeth beth fo'i alluoedd, gymryd rhan yn yr arolwg a rhannu ei farn.

Er mwyn dileu rhwystrau, estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r arolwg, gan roi amser ychwanegol i'r rhai a oedd yn defnyddio'r fformat Hawdd ei Ddeall.  Drwy gymryd y camau hyn, sicrhaodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y gallai pobl ifanc o bob gallu gyfrannu, gan wneud eu lleisiau'n rhan allweddol o waith y Pwyllgor ar wella canllawiau addysg a hyfforddiant ôl-16.

**Y Pwyllgor Cyllid**

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ymgynghori fel rhan o'i adolygiad statudol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ac am y tro cyntaf mae'n derbyn tystiolaeth lafar fel rhan o'r ymarfer. Mae hyn yn adlewyrchu darpariaethau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2019 a roddodd y gallu i bersonau gyflwyno cwynion i'r Ombwdsmon ar lafar, yn ogystal ag yn ysgrifenedig, gyda'r nod o wella hygyrchedd y gwasanaeth. Gwahoddwyd ymatebwyr i ffonio llinell wybodaeth y

Senedd i drefnu apwyntiad gydag aelod o dîm clercio'r pwyllgorau. Yna cynhyrchwyd trawsgrifiad o'r cyfarfod gyda'r clercod, cafodd ei wirio am gywirdeb, a'i anfon at yr ymgynghorai. Roedd gan yr ymatebwyr 14 diwrnod calendr i wneud sylwadau, er y gellid gofyn am fwy o amser os oes angen. Hefyd, nododd y tîm clercio'n glir nad oedd gofyn i'r ymatebwyr gadarnhau eu bod yn fodlon i'w tystiolaeth gael ei defnyddio ar ôl i'r trawsgrifiad gael ei anfon atynt, gan y gallai hyn danseilio'r rhesymau dros gasglu ymateb llafar yn y lle cyntaf o ystyried mai'r bwriad wrth fabwysiadu'r dull hwn yw cael gwared ar yr angen i bobl gyfathrebu'n ysgrifenedig. Yna bydd y trawsgrifiad yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag ymatebion eraill i'r ymgynghoriad a'i ddefnyddio yn yr adroddiad yn ôl yr angen.

### Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Pan gynigiodd Mark Isherwood AS y Bil Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (Cymru), cafodd gymorth integredig gan swyddogion y Senedd ar draws sawl maes gwasanaeth. Felly, bu'n rhaid i 'Dîm y Bil' hwnnw gynllunio a rheoli'r ymgynghoriad (ar ran Mark) i sicrhau bod y gymuned Fyddar wrth ei wraidd. Cynlluniodd ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion raglen i gasglu profiadau bywyd arwyddwyr BSL a'u teuluoedd. Er mwyn sicrhau hygyrchedd, gweithiodd y tîm yn agos gydag arwyddwyr BSL i ddylunio'r broses ymgysylltu. Dylanwadodd eu mewnbwn ar y ffordd y cymerodd y cyfranogwyr ran, gan sicrhau bod dulliau cyfathrebu a lleoliadau yn diwallu eu hanghenion.

Yn ogystal â'r dogfennau ymgynghori safonol, fe wnaethom hefyd lansio platfform ymgynghori ar-lein a ddatblygwyd yn benodol i alluogi i ymatebion BSL gael eu huwchlwytho'n uniongyrchol. Dyma oedd y tro cyntaf i ymgynghoriad ar-lein mewn BSL gael ei gynnal gan y Senedd, ac roedd y broses hon yn gofyn am waith datblygu a chydweithio sylweddol i sicrhau bod y broses yn gweithio'n effeithiol.

Defnyddiwyd dull ansoddol, gyda grwpiau ffocws a chyfweliadau. Fe wnaeth y dull hwn sicrhau ymgysylltiad hyblyg, cynhwysol a hygyrch, gan gasglu safbwyntiau amrywiol mewn lleoliadau a oedd fwyaf addas i'r cyfranogwyr. Cymerodd 77 o bobl ran yn y rhaglen, yn amrywio o ran oedran o dair i 84 oed. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys arwyddwyr BSL Byddar, rhieni ac aelodau o'r teulu, oedolion hŷn, pobl ag anableddau corfforol, ac unigolion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Er mwyn dileu rhwystrau, darparwyd dehonglwyr BSL cymwys, a gallai'r cyfranogwyr ymgysylltu wyneb yn wyneb, ar-lein, neu drwy e-bost.

Mae canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu yn cael eu cyfieithu i BSL, gan sicrhau hygyrchedd ym mhob cam. Drwy weithio mewn partneriaeth â phobl Fyddar a

sefydlu arferion cynhwysol, mae lleisiau arwyddwyr BSL yn ganolog i ddatblygiad y Bil.

## Ymchwil a Gwybodaeth i Aelodau'r Senedd

Mae prif ffrydio materion cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol yn rhan hollbwysig o waith Ymchwil y Senedd. Mae'r tîm yn darparu ymchwil a dadansoddiad i Aelodau'r Senedd a'u staff, sydd hefyd ar gael yn eang i'r cyhoedd drwy'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae erthyglau ymchwil sy'n ymwneud â chydraddoldeb wedi cynnwys: **y rhwystrau sy'n wynebu menywod sy'n sefyll mewn etholiad**, **gweithredu cynllun gweithredu Cymru wrth-hiliol**, **cymdeithas heb arian parod a'i heffaith ar bobl ag anableddau dysgu ac oedolion agored i niwed**, **trefniadau llywodraethu Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn dilyn honiadau o aflonyddu rhywiol, hiliaeth a gwahaniaethu**, **cymhorthion ac addasiadau yn y cartref**, **cyfraith ryngwladol yn y Senedd**, **mynd i'r afael â gofal canser gynaecolegol**, **trais yn erbyn menywod a merched**, a **thwristiaeth hygyrch**.

Roedd erthygl yn nodi **tair blynedd ers i Rwsia ymosod ar Wcráin** a chymorth i ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru yn parhau â'r ffocws ar broblemau sy'n wynebu ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Yn ogystal â chyhoeddi erthyglau ymchwil, mae ymchwiliadau pwyllgorau’r Senedd wedi derbyn cyngor ac ymchwil sy’n cwmpasu ystod eang o faterion cydraddoldeb, gan gynnwys:

- Adroddiadau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar **Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Setliad yr UE, gofal plant, y bwlch cyflogaeth i bobl anabl yng Nghymru**, llywodraethiant y **Gwasanaeth Tân ac Achub** a'i ymchwiliad i **gydlyniant cymdeithasol** a **thlodi tanwydd;**

- Adroddiadau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar **ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, y cyflenwad o dai cymdeithasol** ac ymchwiliad parhaus i **gymorth tai i bobl sy'n agored i niwed**;

- Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar fynediad at addysg a gofal plant ar gyfer **plant a phobl ifanc anabl** a **phlant sydd ar yr ymylon**;

- Ymchwiliad parhaus y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i **Undeb Rygbi Cymru yn dilyn honiadau o rywiaeth, casineb at fenywod, homoffobia a hiliaeth**;

- Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar **gymdeithas heb arian parod** a'r effaith ar grwpiau agored i niwed;

- Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i atal afiechyd a gordewdra; a

- Gwaith craffu'r Pwyllgor Bil Diwygio ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) a oedd yn canolbwyntio ar **gyflwyno cwotâu rhywedd** er mwyn gwella cynrychiolaeth menywod yn y Senedd.

O ran cefnogi'r Aelodau gyda'u gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, dosbarthodd y tîm ganllaw i brif ffrydio cydraddoldeb gyda chwestiynau posibl gan gynnwys cyfeirio at hyfforddiant ar waith craffu sy'n sensitif i gydraddoldeb a ddatblygwyd gan Ymchwil y Senedd.

Mae Ymchwil y Senedd hefyd yn gyfrifol am y **Rhaglen Cyfnewid Gwybodaeth**. Mae'r rhaglen yn gweithio i ehangu, dyfnhau ac amrywio'r dystiolaeth ymchwil a'r arbenigedd sydd ar gael i'r Senedd drwy gryfhau cysylltiadau ag academyddion a phrifysgolion.

Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant, meithrin rhwydweithiau, darparu cyfleoedd i interniaid Doethuriaeth, comisiynu ymchwil, cynnal digwyddiadau a theithiau cyfnewid, a datblygu ffyrdd arloesol o annog ymgysylltiad academaidd â gwaith y Senedd.

Mae **Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil** wedi profi i fod yn ffordd effeithiol o ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Ers 2022, mae pwyllgorau wedi lansio naw Maes o Ddiddordeb Ymchwil ac wedi cael bron i 400 o ymatebion, a 67% o'r rhieni gan bobl nad oeddent erioed wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen. Roedd 52% o'r ymatebwyr i Feysydd o Ddiddordeb Ymchwil yn fenywod, roedd 45% o dan 45 oed, roedd 21% yn dod gymunedau ethnig leiafrifol, ac roedd gan 12% anabledd.

## Busnes Cynhwysol y Senedd

Mae ein Huned Cydgysylltu Busnes ganolog yn darparu cymorth i sicrhau bod busnes y Senedd (y cyfarfodydd llawn a'r pwyllgorau) yn cael ei redeg yn effeithlon ac yn effeithiol.

- Cynnal a hyrwyddo safonau hygyrchedd mewn allbynnau pwyllgorau, gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau gyda metadata a thempledi hygyrch; rhai adroddiadau'n cael eu cyhoeddi fel fersiynau Word (gyda chanllawiau) er mwyn gwella'r opsiynau darllen hygyrch sydd ar gael; a hyrwyddo arferion da ar gyfer cynhyrchu dogfennau hygyrch mewn papurau pwyllgor cyhoeddedig eraill drwy ddarparu hyfforddiant i dimau clercio.
- Annog trydydd partïon i gyflwyno cynnwys ysgrifenedig hygyrch i bwyllgorau'r Senedd.
- Defnyddio Microsoft Forms ar gyfer ymatebion i ymgyngoriadau fel ein bod yn rheoli fformat yr ymatebion testun ac yn gallu gwella hygyrchedd y dogfennau sy'n deillio o hynny.
- Sgriptiau gweithdrefnol sy'n manteisio ar ddull hygyrch yn seiliedig ar dempledi. Sicrhau bod ystod ehangach o allbynnau ar gael yn gyson drwy ddefnyddio templed hygyrch strwythuredig o'r cychwyn.
- Derbyn ymatebion yn Saesneg, Cymraeg a BSL ar gyfer ymgynghoriad cyn cyflwyno ar Fil Aelod arfaethedig gydag un pwynt mynediad ar gyfer pob ymateb, beth bynnag fo'r iaith. Creu proses symlach ar gyfer cyflwyno ymatebion fideo BSL a phroses fewnol i sicrhau bod y rhain yn cael eu trin yn gyfartal ochr yn ochr ag unrhyw ymatebion ysgrifenedig a gyflwynir.
- Cadw cofnod o addasiadau rhesymol ar gyfer yr holl bwyllgorau er mwyn deall yn well pa ddarpariaethau yr ydym wedi'u gwneud i dystion a'n Haelodau i'w galluogi i gymryd rhan lawn yn nhrafodion y Senedd.
- Diweddaru'r canllawiau ar-lein ar gyfer "Cymryd rhan mewn pwyllgor" ar gyfer tystion sy'n darparu tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar, gan gynnwys darparu gwybodaeth gliriach ynghylch pryd y gellir gofyn am addasiadau rhesymol i brosesau a'n bod yn mynd at i geisio darparu ar gyfer y rhain.

## Dysgu, Ymgysylltu a Chymorth i Aelodau

Mae ein Timau Cymorth Busnes i Aelodau a Dysgu ac Ymgysylltu ag Aelodau yn darparu cymorth ar Amrywiaeth a Chynhwysiant i Aelodau mewn perthynas â rhedeg eu swyddfeydd a chyflogi staff cymorth. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae ein timau wedi adolygu nifer o bolisïau i adlewyrchu gofynion cyfreithiol newydd a'r arferion da diweddaraf ym maes cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys lansio pecynnau cymorth diwygiedig sy'n ymdrin â materion y menopos a thrais domestig. Rydym hefyd wedi datblygu canllawiau a phecyn cymorth o ddogfennau i gynorthwyo'r Aelodau i gydymffurfio â'u dyletswydd i gymryd camau rhesymol i atal aflonyddu rhywiol.

Mae'r tîm Dysgu ac Ymgysylltu ag Aelodau wedi darparu amrywiaeth o gyrsiau i Aelodau a staff cymorth ar Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae hyfforddiant ar Ymddygiad a Pharch wedi cael ei ddarparu ddwywaith y flwyddyn. Darparwyd cyrsiau ar ddeall tlodi, cefnogi llesiant pobl eraill, hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o hil, hyfforddiant gwylwyr gweithredol, rhagfarn anymwybodol, a diogelu oedolion sydd mewn perygl. Mae gan aelodau a staff cymorth fynediad at rwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle a thudalennau pwrpasol ar y fewnrwyd sy'n darparu hyfforddiant a chyngor ychwanegol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant.

## Trafodion cynhwysol

Mae dehongliad Iaith Arwyddion Prydain ar gael ar gyfer Cwestiynau i'r Prif Weinidog a phob cyfarfod o Senedd Ieuenctid Cymru. Darparwyd gwasanaeth dehongli BSL yn rhagweithiol pan drafodwyd y pwnc, megis Datganiad 90 Eiliad gan Julie Morgan ar 8 Mai 2024 ac ar gyfer Dadl Aelodau o dan arweiniad Mark Isherwood ar 5 Mawrth 2025. Mae gwasanaeth dehongli hefyd ar gael, ar gais a chyda rhybudd rhesymol, i unrhyw un sy'n dymuno gwylio dadl neu gyfarfod Pwyllgor penodol, ar gyfer digwyddiadau ac ar gyfer Teithiau o Amgylch y Senedd.

## Archwilio taith yr ymwelydd

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, comisiynwyd cwmni ymchwil o'r enw Bramcote i edrych ar ymgysylltiad ymwelwyr. Er mwyn deall taith gyffredinol y cwsmer wrth ymweld â'r Senedd ac i fapio'r holl bwyntiau cyswllt â chwsmeriaid, datblygwyd map taith cwsmer, cynhaliwyd cyfweliadau ag ymwelwyr cyson, a darparwyd argymhellion arbenigol. Y nod oedd amlygu'r heriau y gallai ymwelwyr eu hwynebu a chefnogi ffocws yn seiliedig ar dystiolaeth ar feysydd allweddol i'w gwella o ran profiad ymwelwyr â'r Senedd.

Ymwelais â'r Senedd i gwrdd â Joyce Watson AS a'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant, i drafod hygyrchedd a chefnogaeth i staff niwrowahanol sy'n gweithio yn y Senedd. Cefais fy nghyfarch yn gwrtais a gofynnwyd imi pwy yr oeddwn wedi dod i'w weld, ac yna camodd aelod o'r staff diogelwch ymlaen ac egluro'n glir ac yn uniongyrchol, beth oedd angen imi ei wneud nesaf. Rwy'n gwerthfawrogi cyfarwyddiadau clir yn fawr, gan fod staff diogelwch a'r dderbynfa yn rhai o'r adeiladau rwy'n ymweld â nhw, yn defnyddio cellwair fel ffordd o geisio eich helpu i ymlacio, ond mewn gwirionedd mae hyn bob amser yn gwneud imi deimlo'n fwy pryderus gan fod yn rhaid imi weithio'n galed iawn fel person awtistig i ddeall beth sy'n cael ei ddweud a sut y dylwn i ymateb, neu a ddylwn i ymateb.

Gofynnais lawer o gwestiynau technegol am y sganiwr corff, gan fod gen i ddiddordeb mawr ynddo, ac roedd y staff diogelwch yn amyneddgar iawn, gan ateb fy nghwestiynau ac egluro popeth. Cefais gyfarwyddyd clir i aros i staff fy nghasglu ac ynglŷn â ble i aros, ac roeddwn i'n falch iawn o ddod o hyd i'r daflen 'Ymweld â Ni: Materion synhwyraidd i bobl niwrowahanol' yn yr ardal aros, yn rhoi manylion imi am ffynonellau ac amseroedd digwyddiadau sy'n amharu ar y synhwyrau, a larymau ac ati.

Cyfarfu'r tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant â mi ac roeddwn yn falch iawn eu bod nhw wedi arwain y ffordd drwy'r adeilad fel y gallwn i eu dilyn. Yn aml, pan fyddaf yn ymweld â lleoedd newydd, bydd disgwyl i mi gerdded i ystafelloedd cyfarfod o flaen y sawl sy'n fy nghroesawu a mynd drwy ddrysau'n gyntaf, ac mae hynny'n gwneud imi deimlo'n bryderus iawn gan fod cymaint o ansicrwydd a lletchwithdod. Gofynnwyd imi a oedd hi'n iawn defnyddio'r grisiau ac ni cheisiodd neb ysgwyd fy llaw na gofyn sut oeddwn i - rhyddhad enfawr. Fel llawer o bobl awtistig eraill, mae gen i broblemau synhwyraidd cyffyrddol a gorbryder ynghylch croes-heintio, sydd wedi gwaethygu yn sgil y pandemig covid, a hefyd pan fyddaf yn canolbwyntio'n ddwys ar bwrpas fy ymweliad gallaf gael fy 'nhaflu oddi ar fy echel' gan gwestiynau cymdeithasol a mân siarad. Roeddwn i hefyd yn gwerthfawrogi cael fy nghyfarwyddo i eistedd lle bynnag yr oeddwn i'n gyfforddus wrth fwrdd y cyfarfod a gallu dechrau ar y drafodaeth ar unwaith. Trueni nad yw pawb yn ymatal rhag ceisio ysgwyd fy llaw a sgwrsio â mi – cefais brofiad gwych yn ystod fy ymweliad..

—

*Catherine Leggett,*
*Aûtentic Autism Consultancy and Training*

## Digwyddiadau a Noddir gan yr Aelodau

Fel senedd gynhwysol sy'n hygyrch i bobl Cymru, mae'r mannau lle y cynhelir digwyddiadau'r Senedd ar gael i unigolion a sefydliadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o fater, rhoi sylw i'w sefydliad neu ddathlu achlysur arbennig. Mae angen i drefnwyr digwyddiadau gael Aelod o'r Senedd i noddi eu digwyddiad. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a noddwyd gan yr Aelodau, gan gynnwys:

- Wythnos Gwelededd Lesbiaid
- Privilege Café
- Darllen yn Well ar gyfer Dementia
- Dathliad y Pentecost
- Diwrnod Cenedlaethol Windrush
- Balchder Anabledd
- Carnifal Butetown
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Diwrnod Hawliau Gofalwyr
- Digwyddiad Coffáu Holodomor
- Noddfa yn y Senedd
- Goleuo Menorah Chanukah
- Niwrowahaniaeth mewn Byd Niwronodweddiadol
- Mis Hanes LHDTC+
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
- Dathliad Iftar

## Digwyddiadau ac arddangosfeydd y Senedd

Rydym yn trefnu ac yn dathlu llawer o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn i arddangos cyflawniadau pobl Cymru, i ddathlu ein hunaniaeth genedlaethol amrywiol ac i nodi dyddiau pwysig yn y calendr. Isod rydym yn rhannu rhai o'r digwyddiadau a drefnwyd gennym yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

### Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, Rhagfyr 2024

Gweithiodd ein Tîm Digwyddiadau ar y cyd ag Anabledd Cymru i gynnal rhaglen hygyrch o sgyrsiau a gweithdai yn y Senedd. Y dwyn y teitl **'Eich Llais – Eich Senedd'**, roedd y diwrnod yn cynnwys sgyrsiau gan y rhai â phrofiad bywyd gyda'r nod cyffredinol o rymuso'r mynychwyr drwy dynnu sylw at lwyddiant pobl anabl mewn amrywiaeth o feysydd gwahanol fel chwaraeon, y cyfryngau, llywodraeth leol a busnes.

Roedd y diwrnod yn cynnwys perfformiad gwych gan Shiny Happy People, côr cwbl gynhwysol. Cafodd yr holl drafodaethau panel eu ffrydio ar Senedd TV, a chafodd anghenion hygyrchedd y rhai a fynychodd eu diwallu o'r cychwyn cyntaf, drwy gydweithio â Chyngor Cymru i Bobl Fyddar (2 ddehonglydd BSL a 2 balanteipydd).

Roedd amrywiaeth o sesiynau ar gael gyda siaradwyr o wahanol gefndiroedd a chydag anableddau gwahanol, pob un yn cyd-fynd â thema 'Cynyddu arweinyddiaeth gan bobl ag anableddau i sicrhau dyfodol cynhwysol a chynaliadwy'.

Un o'n prif amcanion yma oedd hyrwyddo a dathlu gwaith y Senedd. Yn un o'r sesiynau o'r enw 'Ymgysylltu â'r Senedd, a dylanwadu arni', cydweithiwyd yn helaeth â'n tîm Ymgysylltu â Dinasyddion a drefnodd grwpiau ffocws fel rhan o'u gwaith ymgysylltu ar y Bil BSL.

Fe wnaethom hefyd wahodd rhai sefydliadau i gynnal Marchnad thema yn yr Oriel dros ginio, lle roedd gennym stondin ar thema'r Senedd hefyd gyda chydweithwyr o'r Pwyllgor Deisebau ac adran recriwtio'r Senedd i hyrwyddo ymgysylltu a denu ceisiadau.

Cafodd y tîm lawer o adborth cefnogol ar y diwrnod, ac roedd yn amlwg bod yr ymdrechion a wnaed yn ystod y paratoadau ac ar y diwrnod wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Beth alla i ei ddweud? Ddoe oedd y digwyddiad mwyaf hygyrch a'r hawsaf i'w fynychu oherwydd yr holl wybodaeth a rannwyd ymlaen llaw. Fodd bynnag, y goron ar y cyfan i mi oedd y tîm digwyddiadau a'ch holl gefnogaeth a'ch dull gweithredu. Diolch! Rydych chi i gyd yn wych.

—

*Julian John, Aelod o'r panel*

Ar ein rhan ni, ein côr a'u holl staff cymorth, diolch yn fawr iawn i chi. Fe wnaethom fwynhau'r siaradwyr ysbrydoledig yn fawr iawn ac roedd y côr wrth eu bodd o gael cyfle i berfformio yn eich adeilad godidog. Diolch eto am y gwahoddiad.

—

*Côr Shiny Happy People*

Ar fy rhan i ac Anabledd Cymru, diolch yn fawr iawn i chi, a llongyfarchiadau ar gynnal digwyddiad gwych. Roedd yna rai siaradwyr gwych ac amrywiaeth o safbwyntiau i'w clywed ac roedd wedi'i drefnu'n dda iawn. Gobeithio eich bod chithau i gyd wedi mwynhau hefyd; dylech longyfarch eich hunain.

—

*Kat Watkins, Anabledd Cymru*

Roedd yr holl wybodaeth a gefais o gymorth mawr ac roedd y ffaith ein bod ni wedi gallu cael galwad Teams ychydig wythnosau cyn y digwyddiad yn ddefnyddiol iawn. Gosododd y cefndir yn berffaith a rhoddodd amser i mi ddeall popeth yn iawn. Roedd y digwyddiad yn rymusol iawn. Roedd naws braf, hamddenol i'r sesiwn gyda'r panel.

—

*Sara Pickard, Panelydd*

## Mewnbynnau




Fe wnaethom rannu cyfanswm o 40 o negeseuon ar Instagram, Facebook, LinkedIn ac X am y digwyddiad. Roedd hyn yn cynnwys 20 o negeseuon a gyhoeddwyd cyn y digwyddiad i annog pobl i'w fynychu.



Fe wnaethom greu tudalen lanio newydd ar gyfer y digwyddiad ar ein gwefan i rannu gwybodaeth am y digwyddiad a sut y gall gwesteion ei fynychu.

## Canlyniadau



- Cawsom 15,333 o argraffiadau o gynnwys ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a chawsom 666 o ymgysylltiadau â'n cynnwys.
- Roedd y gyfradd ymgysylltu yn 4.6% fesul argraffiad.
- Cliciodd 202 o bobl i gyrraedd tudalen lanio ein digwyddiad.
- Cawson y cyfraddau ymgysylltu mwyaf ar ein neges LinkedIn ar ôl y digwyddiad, gan rannu lluniau ac uchafbwyntiau o'r diwrnod.



## Hanes Pobl Dduon Cymru 365, Hydref 2024

Dan gadeiryddiaeth Lloyd Lewis, roedd ein digwyddiad mis Hanes Pobl Dduon Cymru 365 a gynhaliwyd ym mis Hydref yn cynnwys panel gyda Mel Owen, Yusuf Hussein Ismail a Jessica Dunrod. Roedd y drafodaeth yn ymchwilio i'r hyn yr oedd 'Reclaiming the Narrative', thema swyddogol Mis Hanes Pobl Dduon 2024, yn ei olygu iddyn nhw ac yn trafod pŵer cymuned, pwysigrwydd hunaniaeth a sut i ddathlu a hyrwyddo cymdeithas amlddiwylliannol yma yng Nghymru. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys perfformiad cerddorol gan Sage Todz. Mynychodd dros 70 o westeion y digwyddiad, ac roedd 37 o'r rhain yn dod o grwpiau ieuenctid nad oeddent wedi ymwneud â gwaith y Senedd o'r blaen.

"Diolch yn fawr iawn am gael dod, roeddwn i'n meddwl bod y digwyddiad yn wych. O ran adborth, does gen i ddim byd ond pethau cadarnhaol i'w dweud; roedd y cyfathrebu a'r briffio cyn y digwyddiad yn berffaith - roeddwn i'n teimlo fy mod i wedi cael fy mharatoi'n dda ac yn deall yn llawn yr hyn a ddisgwylid gennyf cyn y digwyddiad. Roedd y cwestiynau'n ingol iawn ac wedi'u gosod allan yn dda, gan ganiatáu trafodaeth wych. Diolch yn fawr iawn a gobeithio allai weithio da chi eto.

—

*Lloyd Lewis, Cadeirydd y panel*

Roedd hi'n wych gweld cymaint o bobl ifanc yno! Mae'r ffaith bod ganddynt fynediad i'r mathau hyn o sgyrsiau yn allweddol felly roeddwn i'n falch bod cynifer yno i fod yn rhan o'r digwyddiad. Roedd hyd y drafodaeth yn ddelfrydol, yn arbennig gan fod amser ar gyfer sesiwn holi ac ateb. Roedd Lloyd yn gadeirydd gwych. Roedd y ffaith ein bod ni i gyd yn dod o gefndiroedd gwahanol yn wych – doedd yr un o'n safbwyntiau'n union yr un fath, ac mae hynny'n hollbwysig..

—

*Mel Owen, Aelod o'r panel*







## Nadolig, Rhagfyr 2024

Daethom â chenedlaethau ynghyd ar gyfer digwyddiad arbennig y Nadolig, gan wahodd gwesteion o Age Cymru i fwynhau perfformiad gan Ysgol Gynradd Eveswell yn y Senedd. Yn ogystal â'r gwasanaeth gyda'r Aelodau a'n staff, cafodd y ddau grŵp fynd ar daith o amgylch yr adeilad a dysgu mwy am ein gwaith yn ystod eu hymweliad Nadoligaidd.



## Dathliadau Pen-blwydd y Senedd yn 25 oed

Rhoddodd pen-blwydd y Senedd yn 25 oed gyfle inni nodi'r garreg filltir arwyddocaol hon drwy ddathlu'r Cymry sydd wedi helpu i lunio ein democratiaeth.

Yn ystod misoedd yr Haf, fe wnaethom ddathlu drwy gyfres o ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys ymweliad Brenhinol gan y Brenin Siarl a'r Frenhines Camilla, trafodaeth banel a digwyddiad partneriaeth gyda phrosiect Archif Wleidyddol Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Gwahoddwyd unigolion a grwpiau o gefndiroedd amrywiol i gymryd rhan yn y dathliadau a darparwyd lle yn ein dathliadau i'r rhai sy'n rhan o'n hanes ac yn ysbrydoli'r rhai a fydd yn llunio ein dyfodol.





## Croeso Adref i Sêr y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd

Gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru, cynhaliwyd derbyniad a digwyddiad i groesawu athletwyr Tîm Prydain Fawr a Pharalympaidd o Gymru a gymerodd ran yng Ngemau Olympaidd a Pharalympaidd Paris yn ystod yr haf. Mynychodd 20 o athletwyr a oedd yn cynrychioli chwaraeon yn cynnwys Rhwyfo, Bocsio, Saethyddiaeth, Gymnasteg, Taekwondo, Boccia, Nofio ac Athletau. Cafodd yr athletwyr eu cyfarch a'u llongyfarch gan y Llywydd, y Prif Weinidog a Chadeirydd Chwaraeon Cymru, y Fonesig Tanni-Grey Thompson, cyn iddynt gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb a dathliad gerbron y cyhoedd ar risiau'r Senedd. Fe wnaethom hefyd groesawu eu teuluoedd, eu hyfforddwyr a swyddogion a staff llywodraethu i ddathlu eu cyflawniadau gwych ac ysbrydoledig.






## Dydd Gwyl Dewi – St David's Day

Roedd y Senedd yn fwrlwm o falchder ar 1 Mawrth yn ystod dathliadau Dydd Gŵyl Dewi! Croesawyd dros 2,000 o ymwelwyr i ystâd y Senedd i ddathlu gyda ni a mwynhau talentau corau, grwpiau cerddorol a dawnswyr Cymreig.

Cymerodd yr ymwelwyr ran mewn llu o weithgareddau a gweithdai gwahanol drwy gydol y dydd – o blannu hadau cennin Pedr ac ymarfer eu Cymraeg i berffeithio celf ewinedd â thema Gymreig.









Roedd y rhaglen yn cynnwys perfformiad gan Gôr Byddar Cwmbrân a Chôr Iau One World, gweithdy barddoniaeth gyda Bardd Plant Cymru Alex Wharton, a pherfformiadau cerddoriaeth mewn partneriaeth â'r Ministry of Life Education.











## Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

I nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2025, cynhaliodd y Senedd ddigwyddiad lansio arddangosfa mewn partneriaeth â Monumental Welsh Women a'r artist Meinir Mathias i ddathlu dadorchuddio'r pedwar cerflun cyntaf o fenywod Cymru, cyn dadorchuddio'r pumed cerflun olaf – o Elizabeth Andrews – yn 2025.

Mae Meinir Mathias wedi paentio portreadau gwreiddiol o'r pum menyw a anrhydeddwyd gan y prosiect Monumental Welsh Women, ochr yn ochr â ffotograffau o'r cerfluniau, a phroffilio hanesion y menywod Cymreig anhygoel hyn gan gyflwyno eu straeon i gynulleidfa newydd.



## Monumental Welsh Women

Ar gyfer yr arddangosfa hon, mae'r artist Meinir Mathias o Geredigion wedi paentio portreadau gwreiddiol o'r pum menyw a anrhydeddwyd gan y prosiect Monumental Welsh Women.

Meddai Meinir:

> Rwy'n credu bod y gwaith gan dîm Monumental Welsh Women o ran mynd i'r afael â'r angen am gofebau i fenywod yng Nghymru yn gam hynod bwysig ymlaen i'n cymdeithas gyfan. Mae cydnabod ac anrhydeddu ffigurau hanesyddol benywaidd drwy gelf yn hanfodol gan ei fod yn helpu i unioni'r anghydbwysedd o ran rhywedd yn ein naratif hanesyddol.

Dywedodd y Llywydd:

> Thema Diwrnod Rhyngwladol y Menywod eleni yw “Cyflymu Gweithredu” tuag at gydraddoldeb rhywiol, felly mae'n briodol ein bod yn dathlu pum menyw anhygoel o Gymru a oedd yn arloeswyr yn eu meysydd.


## Am Olygfa - What a Scenery - Çî Nemayane

Mae Cymdeithas Cwrdaidd Cymru Gyfan (KAWA) yn sefydliad o Gaerdydd sydd wedi ymrwymo i gyfoethogi bywydau'r gymuned Cwrdaidd yng Nghymru. Mae ei genhadaeth yn ymwneud â darparu gwasanaethau hanfodol, meithrin dealltwriaeth ddiwylliannol, a chreu cysylltiadau cryf â chymunedau amrywiol ledled Cymru.

Daeth yr arddangosfa â gweithiau ugain o artistiaid Cwrdaidd uchel eu parch ynghyd, o Ganada, America, Ewrop, a Chanolbarth Cwrdistan. Wedi'u hysbrydoli gan y delweddau byw a geir ym marddoniaeth Goran, un o feirdd mwyaf blaenllaw y Cwrdiaid, creodd yr artistiaid ddeialog rhwng traddodiadau barddonol Cwrdistan, Cymru a'r dylanwadau llenyddol ehangach sydd wedi dylanwadau ar ddiwylliannau ledled y byd.

## Dy Lais

Arddangosfa yn dathlu straeon pobl sydd wedi defnyddio eu llais i ymgyrchu dros newid ers dechrau datganoli yng Nghymru 25 mlynedd yn ôl. Chwaraewyd fideos o gyfweliadau gyda chyfranogwyr y prosiect yn yr Oriel, gan amlygu amrywiaeth o faterion megis: trais yn erbyn menywod mudol; iechyd menywod; cyfleoedd mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru; profedigaeth; a chydraddoldeb hiliol.



## Croeso Mawr i Brydain

Cafodd yr arddangosfa hon gan UNHCR, sef Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig, ei harddangos y tu allan i'r Senedd ac roedd yn adrodd hanes cymunedau ledled y DU sy'n croesawu pobl sydd wedi cael eu gorfodi i ffoi.

Drwy goginio yng Nghaerdydd, canu yn Greenwich, gwirfoddoli yn Rothesay, ac mewn sawl ffordd gyffredin ac anghyffredin arall, dangosodd Croeso Mawr i Brydain sut y gall ffoaduriaid a cheiswyr lloches ffynnu yn eu cymunedau newydd, a sut y mae cymunedau'n elwa o dalentau a safbwyntiau newydd.

Roedd yr arddangosfa'n cynnwys ffotograffau o'r sefydliad lleol Oasis Caerdydd, a'i fenter cerbyd bwyd 'Global Eats', sy'n dod ag amrywiaeth o fwydydd y rhai sy'n chwilio am loches yn fyw drwy siopau bwyd stryd dros dro, gwasanaeth arlwyo a chlybiau swper.



## O Fudo i Wydnwch

Roedd O Fudo i Wydnwch yn adrodd hanes y rhai a gafodd eu gorfodi i fudo ac adeiladu eu bywydau o'r newydd ar ôl i bobl Asiaidd gael eu halltudio o Uganda ym 1972; ac roedd yn dathlu treftadaeth grefyddol a diwylliannol fywiog cymunedau Asiaidd Cymru.

Roedd yr arddangosfa yn cynnwys hanesion am alltudio, bywyd yn Nhonfanau, yr heriau cynnar a’r daith bersonol anhygoel i ailsefydlu teuluoedd, cymunedau a sefydlogrwydd economaidd, a hynny oll wrth ymdopi â thrawma yn sgil cael eu gwahanu, dioddef colled a bod yn dyst i erchyllterau dynol.





## Tyst i Gymru

Mae 'Tyst i Gymru' yn astudiaeth hirdymor o gymuned a chenedligrwydd, a grëwyd gan y ffotograffydd Mohamed Hassan drwy fynd ar gyfres o deithiau ledled Cymru. Mae'r gwaith yn cynnwys tirweddau a phortreadau, gyda'r portreadau wedi'i creu ar y cyd â llawer o gymunedau; o ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd y wlad i aelodau o gorau hanesyddol.

## Cartref: Yr Allwedd i Obaith

Pwysleisiodd yr arddangosfa hon gan aelodau Crisis Skylight De Cymru, i bobl sy'n profi digartrefedd, mai'r posibilrwydd o gael lle i'w alw'n gartref yn aml yw'r allwedd i obaith. Wedi'i chreu gan bobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd, roedd yr arddangosfa yn cynnwys amrywiaeth o ffurfiau ar gelfyddyd gan gynnwys ffotograffiaeth, argraffu drwy ddefnyddio Gelli, pyrograffeg, crefftwaith ac ysgrifennu creadigol. Roedd yn gwahodd gwylwyr i roi eu hunain yn esgidiau rhywun sy'n profi digartrefedd a myfyrio ar y rhwystrau a wynebir gan bobl nad oes ganddynt le sefydlog i'w alw'n gartref.

Roedd yr arddangosfa'n cynnwys gweithgaredd i ymwelwyr fyfyrio ar eu syniadau am yr hyn yr oedd cartref yn ei olygu iddyn nhw, a gwaith celf llawr yn arddull gêm nadroedd ac ysgolion, lle y gallai ymwelwyr chwarae gêm er mwyn deall rhai o'r heriau y mae pobl ddigartref yn eu hwynebu ar eu taith i ddod o hyd i gartref unwaith eto.



## Ymgysylltu â'r gymuned: gwahodd pobl i mewn

### Y Farchnad

Mewn ymateb i wybodaeth am awydd yr Aelodau i weld digwyddiadau'n cael eu cynnal, cytunodd y Comisiynwyr i symud tuag at ddefnyddio un prif slot y mis ar gyfer digwyddiad (amser cinio ddydd Mawrth neu ddydd Mercher) i dreialu Y Farchnad.

Mae'r Farchnad yn dod â lleisiau o bob cwr o Gymru ynghyd yn y Senedd bob mis mewn digwyddiad ar batrwm marchnad. Mae'n rhoi cyfle i sefydliadau gael stondin yng nghanol bwrlwm y Senedd; i rwydweithio, cwrdd ag Aelodau'r Senedd a gadael i'w llais gael ei glywed ac mae wedi bod yn hynod boblogaidd gyda sefydliadau rhanddeiliaid.

### Carnifal Butetown

Rydym wedi cydweithio â Charnifal Butetown a Chanolfan Mileniwm Cymru ers sawl blwyddyn i gynnal yr orymdaith a'r digwyddiad dathlu dros benwythnos gŵyl y banc ym mis Awst. Eleni, symudodd y llwyfan i'r ardal o flaen y Pierhead a chynhaliwyd y gweithdai y tu mewn i'r adeilad. Mae'r digwyddiad yn cynyddu ystyr yr ystâd fel lle y mae pobl yn ei ddefnyddio i gyfarfod a mwynhau. Roedd y Senedd ar agor dros y penwythnos cyfan, a gallai ymwelwyr ddysgu am y sefydliad, archwilio'r mannau cyhoeddus, a chymryd rhan mewn gweithgareddau crefftau. Dywedodd llawer o ymwelwyr wrthym eu bod wedi ymweld â'r Senedd tra roeddent yn mynychu'r Carnifal, ac nad oeddent wedi ymweld â hi o'r blaen.

### Llwybr y Gaeaf

Mae'r Senedd yn aelod o Bartneriaid y Glannau, sef grŵp o sefydliadau lleol sy'n ceisio hyrwyddo twristiaeth drwy gydweithio a chyfuno adnoddau. Gweithiodd y grŵp gyda'i gilydd i greu llwybr i deuluoedd ei ddilyn lle y gall cyfranogwyr gystadlu i ennill gwobrau, a roddwyd gan y Partneriaid. Thema'r llwybr eleni oedd ceirw, ac ochr yn ochr â gweithgareddau Nadoligaidd eraill, gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac yn ôl yr adborth, nid oedd dros 70% o ymwelwyr wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen.

### Pasbort i'r Ddinas

Rydym wedi gweithio gyda menter Pasbort i'r Ddinas Cyngor Caerdydd sy'n galluogi ac yn annog pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw yng Nghaerdydd, yn enwedig yn ne Caerdydd, i ymweld â mannau yn y ddinas, fel y llyfrgelloedd, y

prifysgolion, a'r Senedd, a'u defnyddio. Mae'r fenter yn ymwneud â chynyddu cyfalaf cymdeithasol drwy ddarparu'r adnoddau a allai fel arall atal yr amgylcheddau hyn rhag cael eu defnyddio, er enghraifft drwy ddarparu trafnidiaeth, bwyd a diod.

Ym mis Hydref, fe wnaethom weithio gyda Pasbort i'r Ddinas i drefnu i deuluoedd o ardaloedd Caerau a Threlái ymweld â lleoliadau yn y Bae a oedd yn cynnwys adeilad y Pierhead, y Senedd, a Chanolfan Mileniwm Cymru. Mynychodd tua 60 o bobl y daith a dysgu am yr ardal a'r sefydliadau, nid oedd y rhan fwyaf wedi ymweld â'r ardal o'r blaen. Drwy’r ymweliad, fe wnaethant ddysgu beth sydd ar gael iddynt ar yr ystâd a chawsant eu hannog i ymweld eto.

Bu'r cysylltiad a wnaed â Chyngor Caerdydd yn sgil y gwaith hwn yn fodd inni greu cysylltiadau â mentrau eraill nad oeddem wedi ymchwilio iddynt o'r blaen. Ym mis Rhagfyr, cydweithiodd **Rhaglen Llysgenhadon Democratiaeth Cyngor Caerdydd** a thîm Addysg y Senedd fel bod ysgolion a oedd yn ymweld â Neuadd y Sir hefyd yn cael ymweld â Siambr Hywel i ddysgu am y Senedd. Mae'r rhaglen yn dod ag ysgolion i'r Senedd nad ydynt fel arfer yn ymweld â hi, ac yn ehangu'r addysg ddinesig a ddarperir i bobl ifanc sydd wedi dangos diddordeb yn y pwnc.

## Gweithdai Cymunedol

Ar ôl gweithio gyda'r Gyfnewidfa Treftadaeth a Diwylliant ar arddangosfeydd Tiger Bay a'r Dociau, fe wnaethom drefnu i gynnal rhan o'r gyfres o weithdai cymunedol a oedd yn ceisio dod o hyd i enwau'r bobl a oedd wedi'u cynnwys yn archif ffotograffau'r grŵp. Roedd y prosiect rhyngweithiol hwn hefyd yn ffordd o ychwanegu ystyr at yr arddangosfa a'r Pierhead fel gofod cymunedol.

## Gweithgareddau Crefftau / Ystyriol o Deuluoedd

Gan adeiladu ar flynyddoedd blaenorol, parhaodd y gweithgareddau crefftau i gael eu trefnu ac ychwanegwyd gweithgareddau newydd yn rheolaidd. Mae byrddau crefftau bellach yn nodwedd reolaidd ar gyfer ymweliadau dydd Sadwrn ac yn ystod y toriad, ac mae'r themâu yn newid yn gyson.

Dros doriad yr haf, buom yn gweithio gyda phartneriaid lleol Crefft yn y Bae a Chanolfan Mileniwm Cymru, i ddatblygu a darparu llwybr o weithgareddau crefftau yn y tri lleoliad ar y thema gwastraff yn y môr, ailddefnyddio ac ailgylchu, a oedd yn cysylltu’r arddangosfeydd a oedd yn cael eu cynnal ym mhob lleoliad. Yn y Senedd, drwy weithgaredd cyfranogol gofynnwyd am farn ymwelwyr ar y pwnc, a ddarparodd dystiolaeth i bwyllgor.

## Adborth ar ôl Ymgysylltu â'r Senedd

Fe gawsom amser gwych yma heddiw gyda'r plant. Rwy'n byw yn Butetown ac nid wyf erioed wedi bod yma o'r blaen. Mae'r merched wedi chwarae am oriau ac roedd hi mor braf iddyn nhw gael cyfle i archwilio a dysgu am y lle hwn. Diolch yn fawr iawn am ddarparu'r gofod hwn. Cafodd y merched sticeri pan adawon ni. Roedden nhw wrth eu bodd â hynny. Byddaf yn ôl yn ystod yr wythnos i fwynhau'r gofod pan fydd y merched yn yr ysgol.

Daethom yma ar ôl clywed bod gweithgareddau a llwybr crefftau ar gael i'r plant. Rydyn ni yma gyda'n hwyrion a'n hwyresau ac rydym wedi mwynhau pob eiliad o'r ymweliad. Fe wnaeth y plant eu slefrod môr a chwarae yn yr ardal chwarae tra roedden ni'n cael coffi hyfryd yn y caffi. Am ffordd wych o dreulio amser gyda'n hwyrion a'n hwyresau, diolch yn fawr iawn am wneud hynny'n bosibl ac am dreulio amser yn siarad â ni a'r plant. Maen nhw wedi cael diwrnod i'r brenin. Diolch

Dw i'n 11 oed a dw i'n meddwl bod y lle yma'n ffantastig. Doedd gen i ddim diddordeb mawr mewn gwleidyddiaeth o'r blaen ond nawr dw i'n dechrau dysgu rhywfaint amdano ac efallai yn y dyfodol y byddaf yn ymwneud mwy â gwleidyddiaeth. Diolch yn fawr

Fe wnes i fwynhau'r arddangosfa yn y Pierhead sy'n ein hatgoffa nad yw amlddiwylliannaeth, mewnfudo ac amrywiaeth yn ffenomena newydd..

Cawsom brynhawn ardderchog. Roeddwn i'n ddiolchgar am y lle parcio i bobl anabl yn ogystal â'r cyfarwyddiadau a'r wybodaeth a'r cyswllt cyn ein hymweliad.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r tîm diogelwch. Roedd gennym nifer o fyfyrwyr (blwyddyn 9) a oedd yn nerfus iawn ynglŷn â mynd drwy'r system ddiogelwch (dyma'r tro cyntaf iddyn nhw erioed fynd drwy system o'r fath). Ond treuliodd y tîm amser yn esbonio'r broses gyfan iddyn nhw, a'u tywys drwy'r broses gam wrth gam, gan dawelu eu meddyliau - diolch!

Roedd y profiad o'r daith o amgylch Senedd yn rhagorol o'r dechrau i'r diwedd. Roedd pob aelod o staff, o'r tîm diogelwch i staff y dderbynfa, yn gyfeillgar ac yn groesawgar. Roedd ein tywysydd yn rhagorol ac yn defnyddio iaith briodol ar gyfer y grŵp. Esboniodd bethau'n dda iawn ac yn glir ac mewn ffordd fywiog a diddorol. Rwyf wedi cynnal llawer o wahanol weithgareddau a digwyddiadau gyda fy ngrŵp a hwn yn bendant oedd un o'r profiadau gorau rydyn ni wedi'u cael. Dw i erioed wedi gweld rhai aelodau o'r grŵp yn dangos cymaint o ddiddordeb, ac roedd yr adborth ganddyn nhw'n gadarnhaol iawn. I'r rhan fwyaf o'r grŵp, dyma oedd y tro cyntaf iddynt ymweld â Bae Caerdydd, y tro cyntaf iddynt ymweld â Senedd a'r tro cyntaf iddynt fynd ar daith o'r fath yng Nghymru. Rwy'n credu y bydd y profiad cadarnhaol a gawsant ar y daith hon yn newid eu hymgysylltiad â'r ddinas a'r wlad sydd bellach yn gartref yn iddyn nhw.

## Y gwasanaeth addysg a Senedd Ieuenctid Cymru

### Tîm Allgymorth Addysg Gogledd Cymru

Isod rydym yn amlygu rhai o weithgareddau Tîm Allgymorth Addysg Gogledd Cymru.

- Yn nigwyddiad Bod yn Fi Fy Hun (Pride) a gynhaliwyd gan ysgolion Sir y Fflint, fe wnaethom gefnogi Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru i roi anerchiad ar ran y Senedd Ieuenctid. Roedd gennym stondin wybodaeth yno a chawsom gyfle i rwydweithio â rhanddeiliaid a sefydliadau eraill sy'n cynrychioli'r gymuned LHDTC+ i hyrwyddo ymgysylltiad â'r Senedd a Senedd Ieuenctid Cymru.
- Gwnaethom gyflwyniad i grŵp o bobl ifanc yn Gisda, elusen sy'n darparu llety, cymorth a chyfleoedd i bobl ifanc ddigartref a/neu agored i niwed 16-25 oed yng Ngwynedd.
- Cynhaliwyd sesiynau trafod ar ymgynghoriad Senedd Ieuenctid Cymru ynghylch y diwrnod ysgol, gan gynnwys sesiwn ag ysgol anghenion dysgu arbennig
- Cynhaliwyd gweithdy yn cynnwys ffug etholiad i fyfyrwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol yng Ngholeg Menai, Llangefni.

### "Democratiaeth y Sioe Gerdd" - Prosiect cydweithredol rhwng Tîm Addysg y Senedd a Phrosiect Ieuenctid Tanio, Betws, Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn ystod 2024, drwy gyfres o weithdai, trafodaethau ac ymweliad â'r Senedd, clywodd pobl ifanc Betws a'r pentrefi cyfagos i'r gogledd o Ben-y-bont ar Ogwr yn uniongyrchol gan bobl sy'n weithgar yn nemocratiaeth Cymru. Fe wnaethant ddysgu am bwysigrwydd pleidleisio; sut y gallant wneud gwahaniaeth a pham mae cael dweud eich barn yn hawl ddynol. Yna aeth y bobl ifanc ymlaen i weithio gydag artistiaid proffesiynol i greu darn o theatr gerdd. Fe wnaethant ysgrifennu'r caneuon, y geiriau a'r golygfeydd sy'n adrodd y stori a'r heriau o dyfu i fyny yng Nghymru.

Perfformiwyd y darn theatr gerdd newydd, DEWIS / CHOOSE yng Nghanolfan Gyfryngau Sardis, ddydd Sadwrn 25 Ionawr 2025.

## Ysgol Gynradd Windsor Clive

Grŵp mawr o tua 66 o fyfyrwyr o'r ysgol gynradd a chanddi'r amrywiaeth ethnig mwyaf yng Nghymru oedd hwn, ble roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddel y ffydd Islamaidd a'r gweddill yn bennaf o dras Gwyddelig a Phwylaidd. Cymerodd y myfyrwyr ran mewn dadl 40 munud ar sut i wella cysylltiadau cymunedol, rhoesant ystyriaeth i gynlluniau i wahodd cymuned Trelái yn rheolaidd i'w hysgol i ddysgu am wahanol gredoau a diwylliannau, a phwysleisiwyd pwysigrwydd darparu ystafell weddïo sefydlog mewn ysgolion ar gyfer pob ffydd.

## Ysgol ILM Caerdydd

Ym mis Chwefror 2025, croesawyd Ysgol ILM Caerdydd, sy'n ysgol newydd, i'r Senedd; gair Arabeg yw ILM sy'n golygu 'Gwybodaeth'.  Fel rhan o'u hymweliad, cyfarfu'r myfyrwyr â Julie Morgan AS a chawsant gyfle i'w holi am ei gwaith yn y Senedd ac yn y gymuned.



## Senedd Ieuenctid Cymru – Trydedd Ymgyrch Etholiad

Cynhaliodd Senedd Ieuenctid Cymru ei thrydydd etholiad ym mis Tachwedd 2024 i ethol 60 o Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru. Drwy gydol yr ymgyrch etholiadol, ymgysylltwyd â phobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd gwahanol drwy ymweliadau a digwyddiadau mewn ysgolion a cholegau i annog cymaint o bobl ifanc â phosibl i gymryd rhan yn etholiad Senedd Ieuenctid Cymru.

Yn ogystal â gwaith allgymorth wedi'i dargedu ledled Cymru, a sesiynau addysg yn y Senedd ei hun, mae Senedd Ieuenctid Cymru hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner i sicrhau bod grwpiau amrywiol o bobl ifanc yn cael eu cynrychioli. Mae 19 o sefydliadau partner yn cael eu dewis ym mhob etholiad. Mae pob sefydliad yn ethol person ifanc o fewn eu haelodaeth i fod yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, gan sicrhau bod safbwyntiau unigryw pobl ifanc o ystod o gefndiroedd gwahanol yn cael eu clywed yn holl waith Senedd Ieuenctid Cymru.



Hefyd, mae gan Senedd Ieuenctid Cymru gynrychiolydd ar gyfer pob etholaeth yng Nghymru, gyda phob un o'r 40 o'r bobl ifanc hynny wedi'u hethol yn ddemocrataidd gan eu cyfoedion.

Mae'r Senedd Ieuenctid wedi ymrwymo i weithio'n gynhwysol a chefnogi ei Aelodau i gael mynediad at wybodaeth ac ymgysylltu â'n gwaith yn effeithiol. O ganlyniad, yn ein Cyfarfod Llawn cyntaf yn y Senedd yn ddiweddar, roedd amrywiaeth o gymorth ar gael i sicrhau y gallai Aelodau o'r Senedd Ieuenctid

ymgysylltu'n effeithiol â'n gwaith. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaeth llais i destun, gwasanaeth dehongli BSL a gwasanaeth cyfieithu Twrceg. Mae fersiynau Hawdd eu Deall yn cael eu cynhyrchu o bob dogfen ac ymgynghoriad allweddol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag Anabledd Dysgu Cymru i sicrhau bod y ffordd yr ydym yn cyfathrebu â'r Aelodau yn addas ar gyfer amrywiaeth o anghenion.

Y materion â blaenoriaeth a ddewiswyd gan Drydedd Senedd Ieuenctid Cymru yw:

- Costau byw a thlodi
- Trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol
- Trosedd a diogelwch

Bydd Aelodau'r Senedd Ieuenctid yn gweithio mewn pwyllgorau yn ystod eu tymor i edrych yn fanwl ar y materion hyn, a pharatoi ymgyngoriadau, adroddiadau ac argymhellion.

## Cawcws Menywod y Senedd

Cyfarfu Cawcws Menywod y Senedd yn ffurfiol bedair gwaith eleni, i drafod ystod o faterion yn amrywio o ddeddfwriaeth a diogelwch yr aelodau i ymgysylltu rhyngwladol. Gwahoddwyd y Cawcws hefyd i roi tystiolaeth i Bwyllgorau'r Senedd ac i dderbyn briffiau technegol gan Swyddogion y Llywodraeth.

Ym mis Ebrill 2024, ymgynghorwyd â Chawcws y Menywod ar Fecanweithiau Cwotâu Rhywedd fel rhan o waith craffu Pwyllgor y Bil Diwygio ar Fil Senedd Cymru (Ymgeiswyr Etholiadol). Ymddangosodd Joyce Watson AS, Rhianon Passmore AS, Sioned Williams AS, a Janet Finch-Saunders AS gerbron y Pwyllgor i roi eu barn.

Estynnodd y Cawcws wahoddiad i Weinidogion Llywodraeth Cymru i gyfarfod hefyd, i drafod cynrychiolaeth rhywedd mewn perthynas ag etholiad 2026. Yn ei gyfarfodydd eleni, cytunodd aelodau'r Cawcws i gyflwyno cynnig trawsbleidiol i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a drafodwyd yn y Siambr ar 11 Mawrth.

I ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2025, cynhaliodd y Cawcws ddigwyddiad rhwydweithio cyflym mewn cydweithrediad ag Elect-Her. Estynnodd y digwyddiad, Inspire-Her, wahoddiad i 20 o fenywod ifanc gwrdd ag aelodau'r Cawcws i drafod beth mae'n ei olygu i fod yn aelod etholedig o'r Senedd, ac i godi materion o bwys i bobl ifanc yng Nghymru.

## Senedd Fyd-eang - Ymgysylltu Rhyngwladol



Ym mis Mehefin 2024, croesawodd y Llywydd ymweliad gan yr Assemblée Nationale du Québec, dan arweiniad eu Llefarydd Mme. Nathalie Roy.



Croesawodd y Llywydd hefyd Ei Ardderchogrwydd Pedro Serrano, Llysgennad yr UE i'r DU, ynghyd â Llysgennad Awstria i'r DU (Ei Ardderchogrwydd Bernhard Wrabetz) ac Uchel Gomisiynydd Cyprus i'r DU (Ei Ardderchogrwydd Kyriacos Kouros).



Ym mis Rhagfyr 2024, croesawodd y Llywydd a Chomisiynwyr y Senedd ddirprwyaeth o Senedd Catalwnia, gan gynnwys y Gwir Anrhydeddus Josep Rull, Llywydd Senedd Catalwnia.



Ymwelodd yr Anrhydeddus Curtis Pitt AS, Llefarydd Senedd Queensland â'r Senedd ym mis Mehefin 2024.

### Cynhadledd Ranbarthol Môr y Canoldir Ynysoedd Prydain (BIMR)

Cynhaliwyd Cynhadledd Ranbarthol BIM 2024 am y tro cyntaf erioed, a hynny yn St Helena (18-25 Mai 2024). Cynrychiolwyd Cangen y Senedd gan Natasha Asghar AS.

### Cynhadledd Ranbarthol Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad (CWP)

Cynrychiolwyd y Senedd yng nghynhadledd Ranbarthol CWP 2025 yng Nghaeredin gan Sioned Williams AS, Natasha Asghar AS a Rhianon Passmore AS.

### Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad (CPC)

Cynhaliwyd prif gynhadledd flynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Senedd De Cymru Newydd yn Sydney, Awstralia (3-8 Tachwedd). Cynrychiolwyd y Senedd gan y Llywydd a Chadeirydd y Gangen, Rhun ap Iorwerth AS.

### Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA): Deallusrwydd Artiffisial a Chamwybodaeth

Mynychwyd Cynhadledd CPA ar Ddeallusrwydd Artiffisial a Ffugiadau Dwfn, a gynhaliwyd yn Singapore (18-20 Mehefin), gan Lee Waters AS.

### Senedd Ieuenctid y Gymanwlad (CYP)

Cynrychiolwyd y Senedd yn 12fed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad gan gyn-Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, Tegan Skyrme. Gellir darllen adroddiad ar gyfranogiad Tegan yn y CYP a drefnwyd gan Senedd Seland Newydd yn Wellington (2-6 Medi) ar wefan Senedd Ieuenctid Cymru.

**https://seneddieuenctid.senedd.cymru/blog/deuddegfed-gynhadledd-senedd-ieuenctid-y-gymanwlad-wellington-seland-newydd-medi-2024/**

### Cymdeithas Seneddol Prydain-Iwerddon (BIPA)

Cynhaliwyd Cyfarfod Llawn BIPA yn Swydd Wicklow rhwng 14-16 Ebrill ar y thema Twristiaeth. Mynychwyd y Cyfarfod Llawn gan Darren Millar AS, Heledd Fychan AS, a Sarah Murphy AS. Yn dilyn penodiad Sarah Murphy AS i Lywodraeth Cymru, ymunodd Carolyn Thomas â dirprwyaeth BIPA y Senedd yn ei lle. Bydd Carolyn yn eistedd ar Bwyllgor Materion Economaidd BIPA.

Cafodd holl fusnes arall BIPA ei ohirio yn dilyn y cyhoeddiadau am Etholiadau Cyffredinol y DU ac Iwerddon yn 2024.

## Cymru a'r UE

Parhaodd y Senedd i ymgysylltu â strwythurau'r DU a'r UE ar gyfer cysylltiadau seneddol. Mynychodd Aelodau'r Senedd Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE a Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau.

Mynychodd Aelodau’r Senedd wythnos Ewropeaidd dinasoedd a rhanbarthau ym mis Hydref 2024 i godi materion allweddol sydd o bwys i Gymru mewn amrywiaeth o feysydd polisi.

Mae swyddfa’r Senedd ym Mrwsel wedi cefnogi a hwyluso ymgysylltiad pwyllgorau’r Senedd ac Aelodau’r Senedd â sefydliadau’r UE.

Lansiodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon y Senedd ei adroddiad Sioc Ddiwylliannol ar effeithiau Brexit ar y sector diwylliant ym Mrwsel ym mis Tachwedd 2024.

Parhaodd swyddogion y Senedd i ymgysylltu â Rhaglen Ymwelwyr nodedig yr Undeb Ewropeaidd, sef rhaglen hyfforddi i weithwyr proffesiynol ifanc sy'n gweithio mewn meysydd perthnasol.

## Busnes y Senedd yn mabwysiadu ffocws rhyngwladol

Amlinellwyd esblygiad gwaith y Senedd ar gyfraith ryngwladol fel rhan o'r gyfres o erthyglau *25 mlynedd o ddeddfu yng Nghymru* i ddathlu pen-blwydd y Senedd yn 25 oed. Denodd yr erthygl ddiddordeb academaidd a gwahoddwyd swyddogion y Senedd i gyflwyno'r canfyddiadau mewn cynadleddau a seminarau.

Mae gwaith craffu ar faterion rhyngwladol ac ymgysylltu â'r materion hynny yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau pwyllgorau'r Senedd ac mae'n cynnwys y gweithgaredd canlynol: ymwelodd dirprwyaeth traws-bwyllgor o Aelodau'r Senedd, wedi'i harwain gan y Dirprwy Lywydd, â Senedd Genedlaethol yr Oireachtas fel rhan o'r ymrwymiad i ddyfnhau'r cysylltiadau seneddol rhwng Cymru ac Iwerddon; cyhoeddodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ei adroddiad ar effaith Brexit ar y sector diwylliant; fe wnaeth y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig fonitro'r trefniadau masnach ar ôl Brexit rhwng Cymru ac Iwerddon; cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol adroddiad blynyddol ym mis Ebrill 2024 ar y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a hawliau dinasyddion Ewropeaidd yng Nghymru a mynychodd rhanddeiliaid allweddol y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad; ym mis Awst 2024 lansiwyd ymchwiliad traws-bwyllgor ar yr adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE gyda digwyddiad i randdeiliaid, a gynhaliwyd yn y Senedd ym mis Medi 2024, i gefnogi ymgysylltu â'r ymchwiliad.

Mae rhagor o wybodaeth am Fframwaith Rhyngwladol Comisiwn y Senedd a gweithgaredd diweddar ar gael ar ein gwefan:

**https://senedd.wales/comisiwn/cysylltiadau-rhyngwladol/**



# Beth nesaf?



Byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflawni ein hamcanion strategol Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy:

### Fod yn senedd gynhwysol

Rydym yn parhau i ymdrechu i fod yn Senedd gynhwysol a hygyrch i Bobl Cymru, gan hyrwyddo arweinyddiaeth a diwylliant sy'n cael eu harwain gan werthoedd. Byddwn yn gwneud hyn drwy gydweithio'n agos â'r is-grŵp Amrywiaeth a Chynhwysiant a fydd yn canolbwyntio ar ymgysylltu a chyfranogiad dinasyddion gyda'n cynulleidfa amrywiol, yn ogystal â pharhau i gefnogi Aelodau'r Senedd drwy ddarparu gwybodaeth er mwyn ymgorffori Amrywiaeth a Chynhwysiant yn eu gwaith yn y Senedd ac fel cyflogwyr.

### Bod yn gyflogwr cynhwysol

Rydym wedi ymrwymo i fod yn lle cynrychioliadol a chynhwysol i weithio ynddo, lle mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgaredd beunyddiol a'n gwaith cynllunio strategol. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wireddu eu dyheadau'n llawn o ran datblygiad a dilyniant eu gyrfa ac ymestyn yr ymrwymiad, sy'n ymrwymiad i'r Bwrdd Gweithredol ar hyn o bryd, i gynnwys amcanion yn ymwneud ag Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Adolygiadau Datblygiad Personol i'r tîm Arweinyddiaeth ehangach.

### Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle

Bydd gwaith yn parhau yn 2025/2026 i adolygu ac adnewyddu ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cefnogi a datblygu staff mewn ffordd sy'n adlewyrchu ein ffyrdd presennol o weithio. Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio gyda Chadeiryddion Rhwydweithiau, Uwch Hyrwyddwyr Amrywiaeth ac ystod o randdeiliaid perthnasol i ddylunio a datblygu dull newydd o weithredu Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle yn y Senedd.

### Recriwtio

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein harferion recriwtio a chyflogaeth yn gynhwysol a bod cronfeydd talent ar gyfer penodiadau Cyhoeddus, penodiadau'r Goron ac uwch swyddogion yn amrywiol a chynhwysol. O 2025/26, bydd yn orfodol i holl aelodau panel Comisiwn y Senedd  ddilyn modiwl hyfforddi ar Recriwtio Cynhwysol, sydd newydd gael ei achredu.

## Iechyd Meddwl a Llesiant:

Mae cynlluniau ar y gweill i greu pecyn hyfforddiant llesiant i'r holl staff i ategu'r addewidion a nodir yn yr ymrwymiad a sicrhau bod rheolwyr yn gallu cefnogi llesiant eu staff.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales